Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

# Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel

Mai 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCymunedau@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCLlLCh**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

# Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel

Mai 2018

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): llywodraeth leol; tai; adfywio, cydlyniant a diogelwch cymunedol; trechu tlodi; cyfle cyfartal a hawliau dynol.

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**John Griffiths AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Gareth Bennett AC**
UKIP Cymru
Canol De Cymru



**Janet Finch-Saunders AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



**Siân Gwenllian AC**
Plaid Cymru
Arfon



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru
Islwyn



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Jack Sargeant AC**
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy



**Bethan Sayed AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Joyce Watson AC**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mick Antoniw AC**
Llafur Cymru
Pontypridd

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion** ..... **7**

**1. Cyflwyniad** ..... **11**

**2. Dull Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar Ddatblygu Economaidd** ..... **14**

2. 1. Mesur llwyddiant economaidd ..... 15

2. 2. Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ..... 16

2. 3. Datblygiad economaidd rhanbarthol ..... 21

2. 4. Yr economi sylfaen ..... 27

2. 5. Ein barn ni ..... 29

Dull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ..... 30

Datblygiad economaidd rhanbarthol ..... 32

Yr economi sylfaen ..... 34

**3. Cyflogadwyedd** ..... **36**

Cyngor ar yrfaoedd ..... 41

Amrywiaeth a chyflogadwyedd ..... 43

3. 1. Symud ymlaen yn y gwaith ..... 46

3. 2. Ein barn ni ..... 50

Symud ymlaen yn y gwaith ..... 51

**4. Caffael** ..... **53**

4. 1. Ansawdd caffael ..... 53

4. 2. Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn cadwyni cyflenwi ..... 59

4. 3. Monitro a gorfodi ..... 62

4. 4. Cydraddoldeb a chaffael ..... 65

4. 5. Ein barn ni ..... 67

**5. Ansawdd gwaith** ..... **69**

5. 1. Y Bwrdd Gwaith Teg ..... 71

5. 2. Contractau dim oriau ..... 73

5. 3. Ein barn ni ..... 74

Y Bwrdd Gwaith Teg ..... 74

Contractau Dim oriau ..... 75

**6. Cyflogau ..... 76**

6. 1. Y Cyflog Byw Gwirfoddol ..... 78

6. 2. Rhywedd a chyflogau ..... 82

6. 3. Ein barn ni ..... 83

Y Cyflog Byw Gwirfoddol ..... 83

Rhywedd a Chyflogau ..... 85

**7. Lles ..... 87**

7. 1. Datganoli pwerau ar ddiwygio lles i'r Cynulliad Cenedlaethol ..... 89

7. 2. Ein barn ni ..... 90

# Rhagair y Cadeirydd

Un o'r meysydd allweddol yr ydym wedi canolbwyntio arno drwy gydol y Cynulliad hwn yw tlodi yng Nghymru. Mae'n flaenoriaeth i'r gwaith a wnawn – gwaith craffu ar bolisi, cyllid a deddfwriaeth. Mae'r ymchwiliad pellgyrhaeddol hwn sy'n edrych ar sut y gallwn sicrhau bod yr economi yn gweithio i'r rheini â'r incwm isaf wedi mynd â'r Pwyllgor y tu hwnt i'w feysydd craffu mwy cyffredin, gan roi'r cyfle iddo edrych ar faterion ehangach, megis caffael. Mae hyn wedi ein helpu i ddeall y newidiadau sydd eu hangen i leihau tlodi, a helpu i gynyddu incwm aelwydydd.

Rydym hefyd wedi ystyried dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar ddatblygu economaidd, diwygio lles a chaffael. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o bolisïau pwysig. Rydym wedi ystyried y rhain fel rhan o'n gwaith. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun Cyflogadwyedd yn fannau cychwyn da, ond rydym am weld rhagor o fanylion ynglŷn â sut y bydd yr uchelgeisiau yn y ddau gynllun hyn yn cael eu cyflawni. Mae hefyd yn hanfodol bod y cynlluniau hyn yn pennu amcanion clir. Fel y saif y ddau gynllun hyn, rydym yn pryderu nad ydynt yn ddigon manwl a'u bod yn rhy amwys o ran y modd y cânt eu cyflawni.

Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom dystiolaeth gymhellol iawn am effaith gwaith ar fywydau pobl. Roedd y dystiolaeth a glywsom gan y sector busnes bach a'r sector adeiladu yn arbennig o ysbrydoledig o ran dangos sut y gallant helpu i hyrwyddo gwelliannau mewn economïau lleol drwy ddarparu gwaith ystyrlon o ansawdd da. Roedd hefyd yn galonogol clywed bod newidiadau bach yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl.

Rydym oll yn credu ym mhwysigrwydd gwaith, nid dim ond fel modd o ddarparu incwm, ond o ran manteision ehangach gwaith i unigolyn, ei deulu a'i gymuned. Fodd bynnag, mae newidiadau i arferion cyflogaeth a'r mathau o waith sydd ar gael yn cynyddu lefelau tlodi mewn gwaith. Mae hyn yn annerbyniol. Gan fod rhai o'r ysgogiadau polisi sy'n gallu helpu i fynd i'r afael â hyn y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, rydym yn galw arni i ddefnyddio'r pwerau sydd ganddi yn greadigol, er mwyn sicrhau bod gan bobl sy'n byw yng Nghymru fynediad i waith o ansawdd da sy'n talu cyflog da.

Yn ogystal â galw ar Lywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn ei gallu i leihau'r defnydd o gontractau dim oriau a chynyddu'r rhai sy'n cael y Taliad Byw Gwirfoddol i'r eithaf, mae ein hadroddiad hefyd yn ystyried y modd y gall prosesau caffael cyhoeddus helpu i greu economi leol fwy cynhwysol. Caffael yw un o'r ysgogiadau polisi uniongyrchol mwyaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, ac rydym

yn credu bod angen gwneud mwy i sicrhau ei fod yn cyflawni'r gwerth gorau, yn gymdeithasol yn ogystal ag yn ariannol.

Nawr yw'r amser i fynd i'r afael â'r agenda hon ac i fwrw ymlaen â'r newidiadau sydd eu hangen i sicrhau gwell swyddi a gwella bywydau pobl mewn ffordd gadarnhaol.

John Griffiths AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell yn gryf bod strategaeth glir ar gyfer trechu tlodi yn cael ei chyhoeddi, un sy'n dwyn ynghyd yr elfennau niferus o waith i leihau tlodi i helpu i ddarparu cyfeiriad clir ac i helpu'r Cynulliad i graffu ar ddull y Llywodraeth. Dylai'r strategaeth gynnwys dangosyddion perfformiad clir i sicrhau rheoli perfformiad effeithiol, yn ogystal â nodi sail dystiolaeth ehangach i helpu i ategu gwerthusiad effeithiol o wahanol ddulliau o drechu tlodi.................... Tudalen 29

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun gweithredu unigol, cydgysylltiedig, i gyflawni'r camau a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun Cyflogadwyedd. Dylai hyn gynnwys set o ddangosyddion y gellir mesur cynnydd y Llywodraeth yn eu herbyn wrth gyflawni ei hamcanion allweddol, a dylid eu cyhoeddi erbyn diwedd 2018, gyda diweddariadau blynyddol wedi hynny.................................................................. Tudalen 30

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn:

- nodi'n glir y canlyniadau y mae'n disgwyl i fusnesau y dyfernir cyllid iddynt drwy'r Gronfa Dyfodol yr Economi eu cyflawni
- esbonio sut y caiff canlyniadau eu mesur, a
- datblygu gweithdrefnau monitro cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Contract Economaidd.......................................................................................... Tudalen 31

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y canlyniadau posibl i fusnesau os na fyddant yn cydymffurfio â'r Contract Economaidd. Mewn achosion lle nad yw busnesau yn cydymffurfio â gofynion y Contract Economaidd, ac nad ydynt yn derbyn cymorth i fodloni'r gofynion hyn, dylai sancsiynau posibl gynnwys gwell trefniadau monitro, rhoi cyhoeddusrwydd i achosion difrifol o ddiffyg cydymffurfio lle mae budd cyhoeddus yn sgil gwneud hynny, atal cyllid, ac yn y pen draw adfachu cyllid..................................................... Tudalen 31

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Prif Swyddogion Rhanbarthol i sicrhau bod y cynlluniau busnes rhanbarthol yn ystyried y gwahaniaethau o fewn rhanbarthau, gan nodi'r camau a fydd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac a fydd o fudd i'r rheini sydd ar yr incwm isaf o fewn rhanbarthau. ........................................................................................................... Tudalen 33

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei Strategaeth Leoli i sicrhau bod swyddi'r sector cyhoeddus yn cael eu lledaenu'n well ledled Cymru, ac yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Dylai hyn gynnwys nodi sut y bydd y dull gweithredu hwn yn denu ac yn adleoli swyddi i'r hybiau strategol yng Nghymoedd y De, ac i rannau eraill o Gymru, yn arbennig yr ardaloedd hynny yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a fydd yn colli Cyllid Strwythurol yr UE. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod cynlluniau galluogi Llywodraeth Cymru ar gyfer y pedwar sector sylfaen yn cynnwys amlinelliad clir o'r gwelliannau i dâl, sicrwydd swyddi a hyfforddiant sy'n ofynnol ganddi yn gyfnewid am y cymorth ehangach y bydd yn ei ddarparu i'r sectorau. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pam mae'r sectorau adeiladu, ynni ac iechyd yn cael eu hystyried yn sectorau sylfaen sy'n cael blaenoriaeth o ran buddsoddi ynddynt yn y Cymoedd ond nid mewn rhannau eraill o Gymru. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai cynlluniau galluogi Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y cymorth y mae'n ei darparu i sectorau sylfaen yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n wynebu'r gweithlu benywaidd yn bennaf. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cymru'n Gweithio yn parhau i gasglu data ar ganlyniadau a phrofiadau am o leiaf flwyddyn ar ôl i rywun lwyddo i gael gwaith. ........ Tudalen 51

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru dreialu cymorth i symud ymlaen yn y gwaith ar gyfer y pedwar sector sylfaen y mae wedi dewis eu blaenoriaethu. Gallai hyn gynnwys meysydd fel cymorth gan gyngor sgiliau neu gyngor ar yrfaoedd; a chefnogaeth ar gyfer dealltwriaeth gynyddol o sgiliau trosglwyddadwy a "dysgu wrth weithio" i gynorthwyo pobl sy'n symud ymlaen yn y gwaith o fewn sefydliadau. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyflogwyr mewn sectorau sylfaen i dreialu "ysgolion gwaith" mewn cwmnïau i wella cyfleoedd i'r gweithlu symud ymlaen yn y gwaith. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gynnal adolygiad llawn o'r Cod Ymarfer ar Gaffael Moesegol mewn Cadwyni Cyflenwi erbyn 2020 ac yn cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodir. Dylai'r adolygiad ystyried a ddylid rhoi'r Cod ar sylfaen statudol. ...... Tudalen 68

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r gwiriadau ffitrwydd i gaffael arfaethedig i asesu i ba raddau y mae cyrff y sector cyhoeddus yn sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio â mentrau cyflogaeth moesegol a budd i'r gymuned. ........Tudalen 68

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r gwiriadau ffitrwydd i gaffael i adolygu'r dull o fonitro arferion cyflogaeth moesegol a pholisïau budd cymunedol. Dylai canfyddiadau adolygiad o'r fath lywio'r gwaith o ddatblygu canllawiau i'r sector cyhoeddus ar fonitro ac adolygu cydymffurfiaeth. ........Tudalen 68

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i gwaith i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio cymalau “budd cydraddoldeb” mewn prosesau caffael, a'r posibilrwydd i ofyn i gontractwyr ddatblygu cynlluniau gweithredu i ddyrchafu menywod yn eu cwmni a'u diwydiant........Tudalen 68

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfansoddiad, cylch gorchwyl a manylion cyfarfodydd y Bwrdd Gwaith Teg ar wefan Llywodraeth Cymru ar unwaith. O ran y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi canfyddiadau unrhyw waith a wneir gan y Bwrdd, ynghyd â'i ymatebion i argymhellion y Bwrdd........Tudalen 74

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gosod gofynion ar unrhyw gwmni sy'n cael cymorth gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid o dan y Contract Economaidd neu ddull arall i leihau'r defnydd o gontractau dim oriau. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo sefydliadau i oresgyn unrhyw rwystrau posibl rhag cynnig contractau diogel. Fel isafswm, dylai fod yn rhaid i gwmnïau gynnig opsiwn i weithwyr symud i gontractau diogel ar ôl cyfnod penodol o gyflogaeth, ac awgrymwn y dylai hynny fod yn 3 mis........Tudalen 75

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ymgyrch eang a phellgyrhaeddol i annog talu'r cyflog byw gwirfoddol yn y sector preifat a chyhoeddus yng Nghymru. Dylai ymgyrch o'r fath dynnu sylw at y budd economaidd i fusnesau a dylai ddathlu'r sefydliadau a'r cwmnïau hynny sydd eisoes yn talu'r cyflog byw gwirfoddol. ........Tudalen 84

**Argymhelliad 20.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnig cymhellion i dalu'r cyflog byw gwirfoddol wrth ystyried ceisiadau am gymorth ariannol y mae'r Contract Economaidd yn ei gwmpasu. Dylid ystyried hyn yn ofyniad craidd i fusnesau mwy sy'n cyflogi o leiaf 250 o staff........Tudalen 84

**Argymhelliad 21.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gosod gofyniad ar bob cwmni, gyda rhwng 50-249 o weithwyr, sy'n cael cymorth fel rhan o'r Contract Economaidd i gyhoeddi data ar eu bylchau mewn cyflog rhwng y rhywiau. ........ Tudalen 85

**Argymhelliad 22.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu sy'n nodi'r hyn y bydd yn ei wneud i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ôl i'r Bwrdd Gwaith Teg gyhoeddi ei argymhellion. Dylai'r cynllun gweithredu hwn gynnwys cerrig milltir, targedau a chamau gweithredu clir. ........ Tudalen 86

**Argymhelliad 23.** Rydym yn argymell, fel rhan o unrhyw ystyriaeth o ddatganoli pwerau ar weinyddu'r Credyd Cynhwysol, bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad o'r manteision a'r risgiau. ........ Tudalen 91

# 1. Cyflwyniad

## Dyma drydydd maes gwaith[1] y Pwyllgor sy'n edrych ar dlodi yng Nghymru. Ar gyfer yr adroddiad hwn, cawsom ystod eang o dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, a oedd yn cynnwys tystiolaeth uniongyrchol gan bobl sydd ag incwm isel. Rydym wedi ystyried datblygiadau polisi allweddol, gan gynnwys cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru.

**1.** Mae'r ymchwiliad hwn yn sylweddol o ran maint y dystiolaeth. Mae wedi adeiladu ar ein tystiolaeth a'n casgliadau blaenorol, yn enwedig yn ymwneud â chyflogadwyedd sy'n deillio o'n gwaith Cymunedau yn Gyntaf[2] a'n harchwiliad cyllidebol, a sesiynau craffu untro gyda Gweinidogion ar waith megis Tasglu'r Cymoedd.

CYLCH GORCHWYL YR YMCHWILIAD:

Sut y gall strategaeth economaidd a chynllun cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru:

- greu twf economaidd sy'n fwy cynhwysol ac sydd o fudd i bobl a lleoedd fel ei gilydd ledled Cymru;
- cysylltu â Rhaglen Gwaith ac Iechyd Llywodraeth y DU;
- lleihau cyfran y bobl sydd ag incwm isel yng Nghymru;
- mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd rhwng gwahanol grwpiau o bobl;

Archwilio sectorau cyflog isel, a mesurau a all wella cyflogau gweithwyr sydd ag incwm isel, fel y cyflog byw;

Ffyrdd o gynyddu sicrwydd gwaith yng Nghymru;

[1] Rydym eisoes wedi gwneud gwaith yn edrych ar Cymunedau yn Gyntaf a dull yn seiliedig ar asedau o leihau tlodi.

[2] **Cymunedau yn Gyntaf: Adroddiad Llawn: Yr Hyn a Ddysgwyd, Hydref 2017**

Rôl budd-daliadau lles wrth gefnogi pobl sydd ag incwm isel yng Nghymru.

Mae sawl ffordd o ddiffinio "incwm isel" gan gynnwys:

Pan fo incwm aelwyd yn llai na 60 o incwm canolrifol mathau tebyg o gartrefi. Ar hyn o bryd mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn cyhoeddi dyddiad ar y dangosydd hwn.

Aelwyd lle mae'r prif enillydd cyflog yn ennill cyfradd is yr awr na'r gfradd y Cyflog Byw gwirfoddol.

Pan nad yw adnoddau unigolyn yn ddigonol i ddiwallu ei anghenion lleiaf (gan gynnwys cyfranogiad cymdeithasol).[3]

**2.** Nid yw ein gwaith wedi ystyried y materion sy'n codi o awtomeiddio a sut y gallai hyn effeithio ar swyddi. Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wrthi'n edrych ar y mater hwn[4] yn fanwl, ac rydym yn edrych ymlaen at ei farn a'i ddadansoddiad.

**3.** Ochr yn ochr â thystiolaeth ysgrifenedig, a'n sesiynau tystiolaeth lafar, cynhaliwyd wyth grŵp ffocws ledled Cymru.[5] Roedd y rhain yn ddefnyddiol er mwyn deall profiad go iawn pobl sydd ag incwm isel. Mae gwrando ar y rhai sydd â phrofiadau uniongyrchol yn hanfodol er mwyn cynnal proses graffu hyddysg a datblygu polisïau'n effeithiol.

**4.** Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn ein gwaith.

**5.** Yn ystod ein hymchwiliad, cafwyd nifer o gyhoeddiadau polisi gan Lywodraeth Cymru. Yn gyntaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Ffyniant i Bawb**, ac yna'r **Cynllun Gweithredu ar yr Economi**. Casglwyd ein tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gyda rhanddeiliaid ar ôl cyhoeddi Ffyniant i Bawb, ond cyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Er mwyn sicrhau bod ein casgliadau'n adlewyrchu datblygiadau newydd, gwahoddwyd pobl i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol ar y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad hwn. Llywiodd y rhain ein sesiwn dystiolaeth derfynol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates AC (Ysgrifennydd

[3] Mabwysiadwyd y diffiniad hwn gan Sefydliad Joseph Rowntree **www.jrf.org.uk/report/definition-poverty** [fel ar 10 Mai 2018]

[4] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, **Ymchwiliad i Awtomeiddio ac economi Cymru**

[5] Grwpiau ffocws gyda phobl o Abertawe, Caernarfon, Blaenau Ffestiniog, Conwy, Llanbedr Pont Steffan, Tonpentre, Caerdydd, Merthyr Tudful, Glynebwy, Torfaen a Rhondda Cynon Taf.

y Cabinet) a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan AC (y Gweinidog).

**6.** Ni chyhoeddwyd dogfen arwyddocaol arall, y Cynllun Cyflogadwyedd, tan ar ôl inni orffen cymryd tystiolaeth. Fe wnaethom ystyried y Cynllun Cyflogadwyedd yn erbyn y dystiolaeth a gawsom, ac mae hyn wedi ein galluogi i wneud rhai argymhellion ynghylch y Cynllun.

# 2. Dull Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar Ddatblygu Economaidd

Rydym yn nodi'r newid yn null gweithredu Llywodraeth Cymru ar ddatblygu economaidd. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad oes digon o fanylion am sut y bydd y Llywodraeth yn cyflawni ei hagenda uchelgeisiol, ac rydym yn galw ar y Llywodraeth i nodi'n gliriach sut mae'n gobeithio cyflawni hyn.

**7.** Cyn inni ddechrau'r ymchwiliad hwn, nododd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai newid sylweddol yn y polisi datblygu economaidd. Dywedodd y byddai'n:

- Mabwysiadu dull gweithredu rhanbarthol i sicrhau bod twf a ffyniant yn cael eu lledaenu ledled Cymru;
- Blaenoriaethu nifer lai o sectorau sefydliadol yn genedlaethol, gan gynnwys gofal iechyd ac ynni ond bydd yn annog rhanbarthau i ddatblygu eu harbenigeddau eu hunain o ran sectorau ac i alinio polisïau sgiliau ag anghenion lleol.
- Grymuso cymunedau drwy roi'r offer sydd eu hangen arnynt i gael mynediad at waith, er enghraifft sgiliau cyflogadwyedd cryfach, gwell seilwaith trafnidiaeth a gwell swyddi yn nes adref.[6]

**8.** Cyhoeddwyd **Ffyniant i Bawb** ym mis Medi 2017. Wrth gyhoeddi'r strategaeth drosfwaol hon, dywedodd y Prif Weinidog:

> "….mae ffyniant yn ymwneud â llawer mwy na chyfoeth materol ac ni ellir ei bennu, na'i gyflawni, yn wir, gan dwf economaidd yn unig. Mae'n ymwneud â phob person yng Nghymru yn mwynhau ansawdd bywyd da, yn byw mewn cymuned gadarn, ddiogel, ac yn rhannu yn ffyniant Cymru…
>
> … Mae'r strategaeth hon yn rhoi sylw i'n hymrwymiadau yn 'Symud Cymru Ymlaen', yn eu gosod mewn cyd-destun hirdymor, ac yn nodi sut y byddant yn cael eu cyflawni mewn modd mwy craff, mwy

[6] **Wales Online**, 20 Mawrth 2017

> cydgysylltiedig sy'n croesi ffiniau traddodiadol, y tu mewn a'r tu allan i'r Llywodraeth."[7]

**9.** Wrth roi tystiolaeth lafar cyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, dywedodd Sefydliad Bevan ei fod am weld newid:

> "…making the economy work for people so that it's about job quality, it's about access to work and it's about improving the quality of services that those jobs deliver."[8]

**10.** Fe'n hatgoffwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree nad oes sicrwydd y bydd twf economaidd ynddoi hun yn codi pobl allan o dlodi.[9]

**11.** Tynnodd Cyngor ar Bopeth sylw at bwysigrwydd cael strategaeth economaidd drawsbynciol sy'n cydgysylltu â chamau gweithredu, polisïau a rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhai cyrff cyhoeddus eraill.[10]

**12.** Dywedodd Chwarae Teg nad oedd y dull gweithredu blaenorol ar ddatblygu economaidd a'r ffocws ar sectorau blaenoriaeth, wedi bod o fantais i fenywod. Dadleuodd dros roi lle mwy amlwg i gydraddoldeb rhywiol yn y strategaeth economaidd a'r camau gweithredu ar newid meddylfryd ac agweddau, gan gynnwys annog rhagor o fenywod i weithio yn y sectorau mwyaf cynhyrchiol ac mewn rolau arweinyddiaeth.[11] Galwodd Oxfam Cymru hefyd am fwy o ffocws ar y rhai y mae tlodi'n cael effaith anghymesur arnynt, ac yn arbennig, menywod.[12]

## 2. 1. Mesur llwyddiant economaidd

**13.** Galwodd nifer o randdeiliaid[13] am roi'r gorau i ddefnyddio mesuriadau cul megis Cynnyrch Mewnwladol Crynswth a Gwerth Ychwanegol Crynswth i set ehangach o fesuriadau. Tynnodd yr Athro Caroline Lloyd a Ffederasiwn Busnesau

---

[7] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, 19 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [14:44]

[8] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [7]

[9] **MEW07 Sefydliad Joseph Rowntree**, paragraff 1

[10] **MEWN04 Cyngor ar Bopeth**, paragraff 2.12

[11] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [142, 153, 156]

[12] **MEW03 Oxfam Cymru**, adran 1

[13] Oxfam Cymru, Ffederasiswn Busnesau Bach Cymru, Yr Athro Karel Williams [Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [121])

Bach Cymru sylw at bwysigrwydd gosod amcanion clir cyn penderfynu ar dargedau a dangosyddion.[14]

**14.** Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru y dylai'r amrywiaeth o fesuriadau gynnwys llesiant economaidd ac amrywiaeth mewn economïau lleol, gan gynnwys maint busnesau ac ansawdd cyflogaeth.[15] Dywedodd y gall fod diffyg cysylltiad rhwng enillion o ran cynhyrchiant a'r hyn y mae pobl yn ei deimlo mewn gwirionedd.[16]

**15.** Galwodd yr Athro Karel Williams am ddangosfwrdd o ddangosyddion llesiant pendant, a fyddai'n rhai lleol a pherthnasol. Gallai'r rhain gynnwys dangosyddion fel gwasanaethau bws mwy cyson i ystadau anghysbell. Teimlai y byddai'r rhain yn fwy perthnasol na metrig cyffredinol technocrataidd ac anghysbell, o'r brig i lawr.[17] Galwodd TUC Cymru am gasgliad o fesurau sy'n adlewyrchu safonau byw yn well. Roedd hefyd am weld mwy o ddangosyddion am fywyd gwaith, er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o incwm aelwydydd na mesuriad Gwerth Ychwanegol Crynswth syml.[18]

**16.** Awgrymodd Oxfam Cymru y gellid ystyried **dangosyddion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** wrth edrych ar effaith yr economi ar y rhai sydd ag incwm isel.[19]

## 2. 2. Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi

**17.** Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ym mis Rhagfyr 2017. Fe'i disgrifiwyd gan y Llywodraeth fel un eang ei gwmpas a oedd yn cynnwys cynigion uchelgeisiol sy'n ymrwymo'r Llywodraeth i newid mawr mewn polisi.[20] Wrth wraidd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi mae'r “contract economaidd” a

---

[14] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017 [124] ac 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [265]

[15] **MEW17, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru**

[16] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [264]

[17] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [121]

[18] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [13]

[19] **MEW03 Oxfam Cymru**, adran 2

[20] **ELGC (05)-03-18 Papur 2, Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru**, paragraff 8

ddisgrifir fel un sy'n fframio'r berthynas gyfatebol rhwng Llywodraeth a busnes i hyrwyddo buddsoddiad cyhoeddus ag iddo ddiben cymdeithasol.[21]

**18.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y byddai'r dull gweithredu newydd yn ceisio gwella llesiant a chyfoeth a lleihau anghydraddoldebau ar yr un pryd. Er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar:

- y contract economaidd newydd, a fydd yn ôl y Llywodraeth yn helpu i ysgogi twf cynhwysol a gwaith teg;
- y Galwadau i Weithredu,[22] a fydd yn ôl y Llywodraeth yn helpu i ddiogelu'r economi ar gyfer y dyfodol.
- dull gweithredu rhanbarthol yn seiliedig ar le, a fydd yn ôl y Llywodraeth yn helpu i nodi cryfderau, sialensau a galluoedd yr holl ranbarthau a chymunedau ledled Cymru, a lle mae angen rhagor o fuddsoddi ac ymyrraeth.[23]

**19.** Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu tri sector thematig a phedwar sector sefydliadol yn ei Chynllun Gweithredu ar yr Economi.[24] Y tri sector thematig yw:

- gwasanaethau y gellir eu masnachu rhwng trigolion Cymru a phobl nad ydynt yn drigolion Cymru megis gwasanaethau Fintech[25] ac yswiriant ar-lein;
- gweithgynhyrchu uchel ei werth sy'n defnnyddio gwybodaeth dechnegol flaengar i greu cynnyrch, prosesau cynhyrchu a gwasanaethau cysylltiedig, megis lled-ddargludyddion cyfansawdd a gweithgynhyrchu cyfansoddion newydd; a

[21] **ELGC (05)-03-18 Papur 2, Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru**, paragraff 10

[22] Disgwylir i fusnesau sy'n dymuno cael cymorth gan Lywodraeth Cymru gyfrannu at un o'r pum galwad i weithredu. Mae'r pum galwad yn canolbwyntio ar: ddadgarboneiddio; arloesi, entrepreneuriaeth a phencadlys; allforio a masnachu; swyddi o'r ansawdd gorau, datblygu sgiliau a gwaith teg; ac Ymchwil a Datblygu, awtomeiddio a digideiddio.

[23] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [15-16]

[24] Llywodraeth Cymru, **Cynllun Gweithredu ar yr Economi**, Rhagfyr 2017, tudalen 14

[25] Busnesau sy'n defnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau bancio a gwasanaethau ariannol yw Fintech.

- galluogwyr sy'n sbarduno busnesau llwyddiannus i ddod yn fwy cystadleuol megis y sector digidol, arbed ynni, ac ynni adnewyddadwy.

**20.** Y pedwar sector sylfaen sy'n cael blaenoriaeth yw twristiaeth, bwyd, manwerthu a gofal. Mae'r rhain yn wahanol i'r sectorau sylfaen a flaenoriaethir gan Dasglu'r Cymoedd. Mae Cynllun Cyflawni Tasglu'r Cymoedd yn blaenoriaethu wyth sector sefydliadol – twristiaeth, manwerthu, bwyd, ynni, adeiladu, gofal cymdeithasol, gofal plant ac iechyd.[26]

**21.** Rhoddodd y rhanddeiliaid canlynol eu barn ar y Cynllun Gweithredu ar yr Economi i'r ymchwiliad hwn:

- Oxfam Cymru;[27]
- Y Gymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil (CECA);[28]
- Cyngor ar Bopeth;[29]
- Sefydliad Bevan;[30]
- Yr Athro Caroline Lloyd;[31]
- Chwarae Teg;[32]
- Dr Alison Parken;[33] a
- Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru.[34]

**22.** At ei gilydd, roeddent yn cefnogi'r newid yn y dull gweithredu a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Rhoddodd pob rhanddeiliad dystiolaeth ddefnyddiol ynghylch lle y gellid gwneud rhagor o newidiadau neu welliannau. Rhoddir crynodeb o'r pwyntiau allweddol isod.

---

[26] Llywodraeth Cymru, **Cynllun Cyflawni Tasglu'r Cymoedd**, Tachwedd 2017, tudalen 21
[27] **MEW03a Oxfam Cymru**
[28] **MEW20a CECA**
[29] **MEW04a Cyngor ar Bopeth**
[30] **MEW11a Sefydliad Bevan**
[31] **MEW13a Yr Athro Caroline Lloyd**
[32] **MEW15a Chwarae Teg**
[33] **MEW16a Dr Alison Parken**
[34] **MEW17a Ffederasiwn Busnesau Bach**

**23.** Wrth groesawu'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a'i ymrwymiadau i dwf cynhwysol, gwaith teg a chydbwysedd rhanbarthol gwell, disgrifiodd Sefydliad Bevan y Cynllun Gweithredu ar yr Economi fel:

> "...short on practical actions to achieve these ambitions.....not in our view sufficient to achieve a transformation in pay and hence a reduction in poverty."[35]

**24.** Ar drywydd tebyg, roedd Chwarae Teg yn feirniadol o ffocws cychwynnol y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar fanwerthu a gofal: – i ddeall yr heriau a'r cyfleoedd y mae'r sectorau hyn yn eu hwynebu. Dadleuodd fod llawer o hyn eisoes yn hysbys ac y dylid canolbwyntio ar gamau gweithredu.[36]

**25.** Roedd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru eisiau gweld targedau a mesurau cryfach yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.[37]

**26.** Roedd Sefydliad Bevan eisiau gweld ystod o gamau gweithredu, gan gynnwys:

- ymrwymiad i gynyddu'r nifer sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirfoddol;
- mwy o gyfleoedd i gyflogeion â chyflogau isel gael mynediad i gyfleoedd hyfforddi a datblygu;
- mwy o ddarpariaeth sgiliau a hyfforddiant i oedolion;
- cynyddu cyfranogiad mewn dysgu sgiliau hanfodol; ac
- ymrwymiad i greu swyddi mewn mannau lle nad oes llawer o gyfleoedd cyflogaeth.

**27.** Yn ogystal, roedd am weld amcanion clir ar gyfer grwpiau penodol o bobl, a lleoedd penodol yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.[38] Tynnodd yr Athro Caroline Lloyd sylw at y ffaith nad oedd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cyflogaeth, gyda phrentisiaethau, fel arfer yn cael eu gwahanu ar sail rhywedd mewn ffordd anhyblyg iawn, ac nad oedd dim ynddo ynglŷn â mynediad i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.[39]

---

[35] **MEW11a Sefydliad Bevan**, paragraffau 2-3
[36] **MEW15a Chwarae Teg**, paragraff 13.5
[37] **MEW17, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru**
[38] **MEW11a Sefydliad Bevan**, paragraffau 4-7
[39] **MEW13a Yr Athro Caroline Lloyd**, paragraff 2

**28.** Cododd yr Athro Caroline Lloyd bryder sylfaenol ynghylch y sail y datblygwyd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi arno:

> "There is a tension in the report [Plan] between a recognition that there is a lack of quality jobs available and an agenda based on employability and skills improvement to enable individuals to access 'decent jobs'. The report states that 'We know that improving the level of skills for people from all backgrounds and places in Wales and encouraging a better match between these skills and the needs of employers is the best way of creating better jobs, higher wages and improved health outcomes. These changes help to reduce the pay gap…' pg 30. Unfortunately, there is no evidence that this is the 'best' way to create better jobs. Over many years, skill levels have been rising, yet the number of poor quality jobs has continued to increase. Women out-perform men in educational qualifications but the pay gap persists. Recognising that other forms of intervention are more likely to drive the creation of better jobs would provide a more realistic approach to the role of skills within such an agenda"[40]

**29.** Pan godasom hy diffyg cyswllt hwn gyda'r Gweinidog, dywedodd fod y Llywodraeth wedi bod yn "gwrando ar y cyflogwr" o ran eu anghenion, a'u bod nawr yn cael trafodaethau gyda cholegau Addysg Bellach, i geisio sicrhau bod prentisiaethau'n cael eu addasu i gyd-fynd â'r swyddi sydd ar gael.[41]

**30.** Nododd Chwarae Teg nad yw'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn trafod tlodi yn benodol. Roedd am weld dealltwriaeth gliriach o sut y bydd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi.[42]

**31.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym mai nod y contract economaidd oedd:

> "…to provide a bar that any business will have to overcome in order to gain support from the Welsh Government."[43]

**32.** Fe wnaethom drafod gydag ef sut y bydd y gwaith o gyflawni'r galwadau i weithredu yn cael eu monitro. Dywedodd wrthym y byddai baich y prawf yn y

---

[40] **MEW13a Yr Athro Caroline Lloyd,** paragraff 2

[41] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [158-159]

[42] **MEW15a Chwarae Teg**, paragraff 13.4

[43] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [38]

contract economaidd. O ran manylion penodol, dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgorffori'r dangosyddion llesiant yn y cynllun gweithredu. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd targedau'n ddigon:

> "We need a cultural change and a behavioural change, and that will be delivered through the stick-and-carrot approach of the economic contract and the calls to action and the regional work."[44]

**33.** Cydnabu, er bod rhai rhwystrau economaidd y tu allan i gymhwysedd datganoledig Llywodraeth Cymru, y gall y Llywodraeth ddefnyddio ei phŵer ariannol a'i phŵer perswadio i ddatblygu newid diwylliannol.[45]

**34.** Amlinellodd hefyd y byddai'r diffiniadau a ddyfeisiwyd gan y Bwrdd Gwaith Teg yn helpu i lywio'r broses o ddatblygu mesurau a dangosyddion.[46] Dywedodd ei fod eisiau ymgorffori diffiniad o waith teg sy'n cynnig diogelwch o fewn y contract economaidd.[47]

## 2. 3. Datblygiad economaidd rhanbarthol

**35.** Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'r ffocws ar ddatblygiad economaidd rhanbarthol yn helpu i "deilwra ein dull o gyflawni i'r heriau a'r cyfleoedd mewn gwahanol rannu o Gymru".[48]

**36.** Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at effaith yr ymyriadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ym Merthyr Tudful a llywodraeth leol fel glasbrint ar gyfer datblygiad rhanbarthol. Dywedodd fod y math hwn o ddull gweithredu yn wahanol i gynlluniau blaenorol sy'n aml wedi bod mewn silos ar eu pen eu hunain.[49]

---

[44] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [20]

[45] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [137]

[46] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [21-22]

[47] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [133]

[48] **ELGC (05)-03-18 Papur 2, Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru**, paragraff 13

[49] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [58-60]

**37.** Roedd y rhanddeiliaid yn cefnogi'n unfrydol y ffocws ar ddatblygiad economaidd rhanbarthol. Cefnogwyd dull gweithredu rhanbarthol hefyd gan ymchwil academaidd:

> "Local employment growth is more important than employment growth in specific sectors in influencing individuals' wage growth."[50]

**38.** Tynnodd yr Athro Caroline Lloyd sylw at yr amrywiant rhanbarthol mewn cyflogau ar draws Cymru.[51] Ym Mlaenau Gwent, Sir Benfro, Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy – mae dros 30% o weithwyr yn cael eu talu llai na'r Cyflog Byw Gwirfoddol. Hyd yn oed ar ben arall y sbectrwm, mae tuag 20% o weithwyr yng Nghaerffili, Caerdydd a Chastell-nedd Port Talbot yn cael cyflogau is na'r Cyflog Byw gwirfoddol.[52]

**39.** Dywedodd Sefydliad Bevan mai ardaloedd gwledig sydd â'r gyfran uchaf o'r gweithlu sy'n cael eu talu islaw'r Cyflog Byw Gwirfoddol.[53] Adroddodd Ymddiriedolaeth Trussell nad oes llawer o swyddi sy'n talu digon i gwmpasu'r holl dreuliau ychwanegol sy'n gysylltiedig â byw mewn cymuned wledig.[54]

**40.** Ym mhob ardal lle y cynhaliwyd grwpiau ffocws gennym, clywsom am ddiffyg cyfleoedd gwaith. Dywedodd y cyfranogwyr wrthym fod y gwaith sydd ar gael yn waith cyflog isel, ac mewn rhai ardaloedd, fel Gogledd-orllewin Cymru, mae'n waith tymhorol. Soniodd pobl mewn ardaloedd gwledig hefyd am leihad yn nifer y swyddi dros y blynyddoedd diwethaf.[55]

**41.** Yn ôl Sefydliad Bevan:

> "The fundamental challenge in Wales is the lack of jobs."[56]

**42.** Cefnogwyd y farn hon gan Ymddiriedolaeth Trussell a ddywedodd wrthym mai'r rhwystr mwyaf i gael gwaith sy'n wynebu pobl sy'n manteisio ar fanciau bwyd oedd diffyg cyfleoedd / swyddi yn eu hardal.[57]

---

[50] **MEW12 Yr Athro Anne Green, Dr Paul Sissons a Dr Neil Lee,** paragraff 8

[51] **MEW13 Yr Athro Caroline Lloyd, Prifysgol Caerdydd**, paragraffau 12-13

[52] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Blog Pigion: Tlodi yng Nghymru: a yw'r gwir sefyllfa'n glir, Mawrth 2018** [fel ar 12 Ebrill 2018]

[53] **MEW11 Sefydliad Bevan**, paragraff 7

[54] **MEW06 Ymddiriedolaeth Trussell**, paragraff 17

[55] **Nodiadau o gyfarfodydd y Grŵp Ffocws**

[56] **MEW11 Sefydliad Bevan**, paragraff 4

[57] **MEW06 Ymddiriedolaeth Trussell**, paragraff 10

**43.** Yn ogystal â diffyg swyddi, mae cysylltiadau trafnidiaeth gwael yn creu rhwystr ychwanegol i gyflogaeth. Amlygodd pobl a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig a threfol bwysigrwydd gwasanaethau bws priodol oherwydd gall costau rhedeg car fod yn rhy uchel i bobl sydd ag incwm isel. Mae'r materion ymarferol yn cynnwys:

- diffyg gwybodaeth sylfaenol am amserlenni, prisiau a lleoliadau arosfannau bysiau;
- anawsterau'n gysylltiedig â gwaith sifft pan fydd rhywun yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus ar adegau pan fo'r gwasanaeth ar gael yn llai cyson; a
- nifer o gysylltiadau sy'n gwneud y daith yn fwy anrhagweladwy.[58]

**44.** Dywedodd Sefydliad Bevan fod angen cysylltiadau da rhwng cymunedau difreintiedig a chanolfannau cyflogaeth.[59] Tynnodd Tinopolis Cymru (cwmni cynhyrchu cyfryngau annibynnol yn Llanelli) sylw at bobl ifanc sydd ag incwm isel na allant gael mynediad i gyflogaeth y tu hwnt i'w hardal leol oherwydd problemau'n ymwneud â thrafnidiaeth.[60]

**45.** Dywedodd Sefydliad Joseph Rowntree fod nifer o gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i greu cyflogaeth a lleihau tlodi:

- Cysylltu adfywio yn seiliedig ar le gyda chyflenwad rhagweithiol i fusnesau;
- Cynnig seibiannau treth i gwmnïau sy'n creu swyddi lleol;
- Defnyddio pwerau cynllunio lleol i gefnogi creu swyddi; a
- Annog modelau perchnogaeth busnes sy'n cadw gwerth lleol (e.e. mentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol cynaliadwy).[61]

---

[58] **Nodiadau o gyfarfodydd y Grŵp Ffocws**

[59] **MEW11 Sefydliad Bevan**, paragraff 5

[60] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 11 Hydref 2017, Cofnod y Trafodion [91]

[61] **MEW07 Sefydliad Joseph Rowntree,** paragraff 4

**46.** Roedd Tinopolis Cymru yn croesawu'r dull gweithredu ranbarthol. Roedd yn teimlo ei fod yn rhoi mwy o gyfleoedd i gwmnïau llai ac ardaloedd megis Llanelli.[62]

**47.** Wrth sôn am ddull gweithredu rhanbarthol ar ddatblygiad economaidd, dywedodd Cyngor ar Bopeth wrthym:

> "…that not only helps us support the local economy and the infrastructure that supports those communities in terms of shops and other facilities, but it also helps address some of the barriers to work that people face in terms of travel, the cost of travel, the time it takes to travel."[63]

**48.** Clywsom fod rhai ardaloedd yng Nghymru yn wynebu mwy o anawsterau. Dywedodd Cyngor Gwynedd fod "bwlch twf" rhwng Gogledd-ddwyrain a Gogledd-orllewin Cymru.[64] Tynnodd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod buddsoddiad mewn seilwaith cyhoeddus yn cael ei wasgaru er mwyn sicrhau bod twf yn cael ei gefnogi ledled Cymru.[65]

**49.** Clywsom lawer o dystiolaeth am effaith lledaenu swyddi yn y sector cyhoeddus i ardaloedd difreintiedig. Dywedodd Tinopolis Cymru wrthym:

> "Rwy'n meddwl mai un o'r pethau pwysicaf y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud yw sicrhau bod swyddi yn mynd i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig lle mae yna ganran uchel o bobl yn byw mewn tlodi."[66]

**50.** Dadleuodd fod lleoli swyddi mewn ardaloedd difreintiedig yn galluogi pobl i deithio i ardaloedd cyflogaeth yn haws, gan dynnu sylw at anawsterau cysylltedd, yn enwedig yn Ne-orllewin Cymru lle mae'r cwmni wedi'i leoli.[67] Dywedodd fod gormod o swyddi yn cael eu canoli yng Nghaerdydd pan nad oes angen i'r swyddi gael eu lleoli yno.[68]

---

[62] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 11 Hydref 2017, Cofnod y Trafodion [46]

[63] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [20]

[64] **MEW08 Cyngor Gwynedd**, paragraff 1.3

[65] **MEW08 Cyngor Gwynedd**, paragraff 1.7

[66] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 11 Hydref 2017, Cofnod y Trafodion [23]

[67] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 11 Hydref 2017, Cofnod y Trafodion [24]

[68] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 11 Hydref 2017, Cofnod y Trafodion [34]

**51.** Dywedodd Tinopolis Cymru fod effaith gadarnhaol ehangach symud swyddi'r sector cyhoeddus i ardaloedd difreintiedig yn sicrhau:

> "…bod busnesau llai, efallai, yn gallu manteisio ar fwy o bobl yn gweithio yno…os ydych chi'n symud rhai o'r adrannau mawr i mewn i ganol Caerdydd, er enghraifft, y cwmnïau mawr Prydeinig yng Nghaerdydd sy'n mynd i fod yn gwerthu brechdanau i bawb yn ystod amser cinio yn hytrach na bod busnesau llai yn gallu codi oddi ar hynny. Felly, mae un peth yn magu'r llall. Dyna pam ei bod hi'n holl bwysig ein bod ni yn symud sefydliadau."[69]

**52.** Roedd hefyd yn teimlo y byddai'n helpu i feithrin hyder, a darbwyllo pobl o werth sefydlu busnes mewn ardal ddifreintiedig.[70]

**53.** Roedd y Mentrau Iaith yn cefnogi'r farn hon, gan gyfeirio at Traveline Cymru, sydd wedi'i leoli ym Mhenrhyndeudraeth. Mae'r cwmni'n darparu gwybodaeth am deithio ledled Cymru yn ddwyieithog, ac mae wedi helpu i gryfhau'r economi leol. Dywedodd y Mentrau Iaith y gellid efelychu'r model hwn mewn mannau fel Blaenau Ffestiniog, Llanrwst, Bethesda a Chaernarfon. Er na fyddent yn creu cannoedd o swyddi, dywedodd y Mentrau y byddai creu nifer fechan o swyddi yn "gwneud lot fawr i gynaliadwyedd y Gymraeg a chynaliadwyedd y pentrefi yna".[71] Dywedodd y Mentrau nad yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgil a chanddo fudd economaidd.

**54.** Codasom y materion hyn gydag Ysgrifennydd y Cabinet. Cyfeiriodd at ei ymrwymiad i ddatganoli a rhannu cyfleoedd sy'n creu cyfoeth ledled Cymru. Dywedodd wrthym:

> "….we're looking at every opportunity to move public sector jobs to those areas where we need to see a greater degree of wealth-creating opportunities…..I think right across the public sector there is a role….I do believe it's incumbent upon us all to make sure that future

[69] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 11 Hydref 2017, Cofnod y Trafodion [64-65]

[70] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 11 Hydref 2017, Cofnod y Trafodion [82]

[71] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 11 Hydref 2017, Cofnod y Trafodion [38]

> developments are undertaken where they will have maximum beneficial impact."[72]

**55.** Dywedodd fod pob cyfle yn cael ei ystyried ar draws Llywodraeth Cymru i ychwanegu at ddatblygiad cymunedau y tu allan i'r ardaloedd trefol dwys lle ceir cyflogaeth lawn eisoes fwy neu lai.[73] Pan holwyd ef ymhellach ar hyn, dywedodd wrthym, yn ogystal â chreu cyfleoedd yn y sector cyhoeddus, ei bod yn bwysig denu mwy o gyfalaf preifat i gymunedau, yn ogystal â sicrhau cysylltedd gwell ac ystod ehangach o stoc dai. Dywedodd ei bod yn bwysig nad oedd pobl ifanc yn teimlo eu bod yn gorfod symud i ffwrdd o'u cymunedau.[74]

**56.** Dywedodd Dinas a Sir Abertawe,[75] Ymddiriedolaeth Trussell[76] ac Oxfam Cymru[77] wrthym y gallai dull gweithredu mwy rhanbarthol arwain at ddatblygu sgiliau mewn ffordd fwy ymatebol sy'n adlewyrchu'n well anghenion marchnad lafur leol. Wrth wraidd hyn byddai mwy o weithio mewn partneriaeth ac adeiladu'r sylfaen gywir o wwybodaeth leol.

**57.** Roedd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru eisiau gweld mwy o ystadegau rhanbarthol ar y farchnad lafur, gan ei fod yn credu y byddent yn arwain at greu polisïau mwy ymatebol.[78] Tynnodd sylw at yr amrywiadau o fewn rhanbarthau:

> "…lots of these places, or the regions we're talking about, are as diverse inside themselves as they are between each other."[79]

**58.** Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach wrthym:

> "there is a relationship between the diversity of the local business base and sustainable and resilient labour markets."[80]

---

[72] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [68]

[73] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [72]

[74] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [75-77]

[75] **MEW02 Dinas a Sir Abertawe**, paragraff 2.2

[76] **MEW06 Ymddiriedolaeth Trussell**, paragraff 40

[77] **MEW3a Oxfam Cymru**, paragraff 2.5

[78] **MEW17, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru**

[79] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [234]

[80] **MEW17, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru**

**59.** Tynnodd TUC Cymru sylw at yr angen am ddull partneriaeth gymdeithasol i ymdrin â bargeinion dinesig. Dywedodd nad oedd ymgysylltu'n llawn â phartneriaid cymdeithasol, fel undebau llafur, wedi bod yn digwydd.[81]

**60.** Soniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid am bwysigrwydd caffael mewn buddsoddi a datblygu rhanbarthol. Roedd yn cydnabod bod rhai cyfleoedd mawr gyda'r gwahanol fargeinion dinesig, a Metro De-ddwyrain Cymru. Rhoddodd sicrwydd inni y byddai'n codi materion yn ymwneud â datblygu sgiliau gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.[82]

## 2. 4. Yr economi sylfaen

**61.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi "yn cydnabod pwysigrwydd swyddogaeth economaidd a chymdeithasol sectorau sylfaen megis gofal, twristiaeth, bwyd a manwerthu". Mae'r Llywodraeth yn disgrifio'r economi sylfaen fel:

> "Mae'r economi sylfaen yn darparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol – o ddarparu gofal i'r henoed a'r ifanc, i'r bwyd yr ydym yn ei fwyta a manwerthwyr ar y stryd fawr. Dyma asgwrn cefn ein cymunedau lleol ledled Cymru. Mewn rhannau o Gymru, fel yn rhai o'n cymunedau gwledig, yr economi sylfaen **yw'r** economi."[83]

**62.** Nod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yw targedu cymorth i'r sectorau hyn[84] gyda chynlluniau galluogi ar draws y Llywodraeth i "gynyddu'n heffaith".[85]

**63.** Mae'r Ganolfan Ymchwil ar Newid Cymdeithasol-Ddiwylliannol yn diffinio'r economi sylfaen fel:

> "…the sheltered sector of the economy that supplies mundane but essential goods and services such as: infrastructures; utilities; food processing, retailing and distribution; and health, education and welfare."[86]

---

[81] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [137]

[82] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [336]

[83] **Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi**, tudalen 15

[84] **ELGC (05)-03-18 Papur 2, tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru**, paragraff 12

[85] **Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi,** tudalen 15

[86] **Gwefan y Ganolfan Ymchwil ar Newid Cymdeithasol-Ddiwylliannol** [fel ar 6 Ebrill 2018]

**64.** Roedd y rhan fwyaf o dystion[87] yn croesawu'n gyffredinol y ffocws ar yr economi sylfaen yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Dywedodd Oxfam Cymru fod cydnabod y cyfalaf cymdeithasol a gwerth yr economi sylfaen yn allweddol i greu economi gynhwysol.[88] Nododd Chwarae Teg mai'r allwedd i dwf cynhwysol oedd cydnabod gwerth yr economi sylfaen.[89]

**65.** Tynnodd yr Athro Caroline Lloyd sylw at y ffaith ei bod yn bosibl na fyddai creu swyddi yn y sectorau sylfaen yn cael effaith ar gyflog neu incwm, ac roedd yn bwysig cael strategaeth integredig sy'n edrych ar sut mae creu swyddi o ansawdd da a swyddi lle y telir cyflogau uwch.[90]

**66.** Nododd yr Athro Karel Williams nad yw'r sector gofal yn darparu gofal na swyddi o ansawdd uchel yn gyson. Mae angen mynd i'r afael â'r ddau fater hyn.[91] Dywedodd ei bod yn hanfodol gofyn i ddinasyddion, nid defnyddwyr, pa fath o wasanaethau sydd eu hangen arnynt, a'r hyn y maent yn ei ddiffinio fel ansawdd.[92] Mae hefyd yn credu bod angen edrych o'r newydd am bolisi ar lefel fwy sylfaenol, gan ddadlau bod angen i sefydliadau'r sector cyhoeddus wella eu perfformiad. Yn y bôn:

> "….we need to stop doing policy to people and ask them what do they want and what do they value."[93]

**67.** Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod angen i'r ffocws newid i ddarganfod pa ymyriadau sy'n sicrhau ein bod yn cael y gwerth cymdeithasol mwyaf o'r sectorau sylfaen.[94]

**68.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r cynlluniau galluogi yn helpu i wella ansawdd cyflogaeth a lefelau cyflog yn y sectorau hyn. Nododd y byddai hyn

---

[87] Roedd hyn yn cynnwys Dr Alison Parken, Chwarae Teg, a Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru.

[88] **MEW3a Oxfam Cymru**, paragraff 2.2

[89] **MEW15 Chwarae Teg**, paragraff 11.5

[90] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [118]

[91] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [127]

[92] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [192]

[93] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [227]

[94] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [236]

yn helpu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau,[95] lle mae amgylchedd a diwylliant wedi caniatáu i fenywod gael eu talu llai.

**69.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod gofal plant wedi'i nodi fel un o'r sectorau sylfaen oherwydd yr effaith a gaiff ar gyflogaeth. Dywedodd y bydd y cynllun galluogi ar gyfer y sector hwn yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â newid arferion a phatrymau gwaith, a sut y gellir goresgyn yr heriau hyn.[96]

## 2. 5. Ein barn ni

**70.** Rydym yn cydnabod y newid yn null gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ar ddatblygu economaidd. Dim ond drwy ddull gweithredu traws-lywodraethol y gallwn gymryd camau breision i fynd i'r afael ag achosion ac effaith tlodi yng Nghymru. Nodwyd pwysigrwydd hyn yn ein hadroddiad ar Cymunedau yn Gyntaf[97] gan argymell bod "strategaeth glir ar gyfer trechu tlodi yn cael ei chyhoeddi, un sy'n dwyn ynghyd yr elfennau niferus o waith i leihau tlodi i helpu i ddarparu cyfeiriad clir…." Fe wnaethom alw hefyd am gynnwys dangosyddion perfformiad clir yn ogystal ag amlinellu'r sylfaen dystiolaeth i helpu gyda gwerthuso yn y dyfodol. Roeddem yn siomedig bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei wrthod gan Lywodraeth Cymru. Er ein bod yn croesawu dull gweithredu cyfannol, nid ydym yn credu bod hyn yn atal datblygu strategaeth wrthdlodi glir. Felly rydym yn gwneud yr argymhelliad hwn eto.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell yn gryf bod strategaeth glir ar gyfer trechu tlodi yn cael ei chyhoeddi, un sy'n dwyn ynghyd yr elfennau niferus o waith i leihau tlodi i helpu i ddarparu cyfeiriad clir ac i helpu'r Cynulliad i graffu ar ddull y Llywodraeth. Dylai'r strategaeth gynnwys dangosyddion perfformiad clir i sicrhau rheoli perfformiad effeithiol, yn ogystal â nodi sail dystiolaeth ehangach i helpu i ategu gwerthusiad effeithiol o wahanol ddulliau o drechu tlodi.

**71.** Mae tlodi wedi aros yn ystyfnig o uchel am gyfnod rhy hir. Mae gallu gwaith i gynnig llwybr allan o dlodi wedi diffygio, gan fod mwy na hanner yr oedolion o oedran gweithio yng Nghymru a phlant mewn tlodi ag o leiaf un person ar yr aelwyd mewn gwaith. Mae effaith hyn ar fywydau beunyddiol pobl ledled Cymru yn sylweddol ac mae'n effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau. O'r dystiolaeth a

[95] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [25]

[96] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [133]

[97] **Cymunedau yn Gyntaf: Adroddiad Llawn: Yr Hyn a Ddysgwyd, Hydref 2017**, paragraffau 176-181

glywsom, mae'n ymddangos bod yr holl bartneriaid yn barod ac yn fodlon chwarae eu rhan wrth geisio mynd i'r afael â hyn.

## Dull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru

**72.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Contract Economaidd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ac yn credu bod modd i hyn greu'r newid diwylliannol ac ymddygiadol a argymhellir gan Ysgrifennydd y Cabinet (gweler paragraff 33).

**73.** Er ein bod yn cefnogi'r dull gweithredu cyffredinol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i amlinellu, rydym yn cefnogi'r galwadau gan randdeiliaid megis Sefydliad Bevan am gamau gweithredu mwy pendant gyda therfynau amser. Ymddengys i ni fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud diagnosis o'r broblem yn effeithiol, a'i bod hanner ffordd tuag at ddod o hyd i atebion ond nid yw wedi llwyddo hyd yma. Mae llawer o ymrwymiadau o ran camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ond dim ond rhai o'r rhain sydd â therfynau amser clir. Nid yw'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cynnwys set o ddangosyddion y gellir gwerthuso effeithiolrwydd yn eu herbyn.

**74.** Rydym yn nodi bwriad Ysgrifennydd y Cabinet i ymgorffori'r dangosyddion llesiant yn y cynllun gweithredu. Gwyddom hefyd y bydd y Bwrdd Gwaith Teg yn helpu i lunio'r dangosyddion. Ond, o ystyried bod pwysigrwydd gwerthuso wedi bod yn thema gyson yn ystod oes datganoli yng Nghymru, credwn fod cyfle wedi'i golli yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi drwy beidio â chynnwys hyn oll mewn un ddogfen. Mae newid mor sylfaenol mewn dull gweithredu yn gofyn am fonitro a gwerthuso gofalus ac ystyriol. Mae hyn yn ddiffygiol yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

**75.** Mae diffyg dangosyddion a cherrig milltir yn hepgoriad sylweddol. Credwn ei bod yn bwysig bod hyn yn cael ei unioni cyn gynted â phosibl i sicrhau bod ganddo'r grym angenrheidiol. Fel arall, ni fydd ei lu o fwriadau da yn cael eu gweithredu'n llawn.

**76.** Nodwn y cysylltiad annatod rhwng cyflawni'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun Cyflogadwyedd, a gwaith y Bwrdd Gwaith Teg. Rydym yn cydnabod bod angen elfen o goreograffi rhwng datblygu pob un o'r ffrydiau unigol, ond mae'n anodd iawn deall sut y byddant yn cysylltu ac yn gweithio â'i gilydd, pan nad yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau a / na'i gyhoeddi.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun gweithredu unigol, cydgysylltiedig, i gyflawni'r camau a nodir yn y

Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun Cyflogadwyedd. Dylai hyn gynnwys set o ddangosyddion y gellir mesur cynnydd y Llywodraeth yn eu herbyn wrth gyflawni ei hamcanion allweddol, a dylid eu cyhoeddi erbyn diwedd 2018, gyda diweddariadau blynyddol wedi hynny.

**77.** Mae'n hanfodol bod y gofynion a osodwyd ar gyfer busnesau fel rhan o'r contract economaidd yn cael eu diwallu. Nid yw'n glir sut y bydd hyn yn cael ei wneud o fewn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, ac mewn tystiolaeth lafar, ni wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet egluro hynny. Mae arnom eisiau rhagor o wybodaeth am sut y bydd y Contract Economaidd yn cael ei blismona, a chredwn y dylai hyn gael ei esbonio'n gliriach fel rhan o'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

**78.** Rydym yn cefnogi barn Sefydliad Bevan bod angen i'r Contract Economaidd gael ei blismona'n dda, a deuwn i'r casgliad y bydd angen i'r contract gael dannedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Mae nifer o ddulliau ar gael i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cwmnïau yn cyflawni eu rhan hwy o'r contract. Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r adnoddau hyn ar yr amod bod hyn yn gymesur: mae'n bwysig bod busnesau yn gallu cael gafael ar gymorth er mwyn iddynt allu diwallu gofynion Llywodraeth Cymru. Rydym o'r farn bod gan Lywodraeth Cymru ran allweddol i'w chwarae i sicrhau bod cwmnïau yn ymwybodol o'r hyn y bydd disgwyl iddynt ei gyflawni drwy'r Contract Economaidd. Bydd angen i hyn gynnwys nodi'r canlyniadau posibl o fethu â chydymffurfio a'u cyfleu'n glir.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn:

- nodi'n glir y canlyniadau y mae'n disgwyl i fusnesau y dyfernir cyllid iddynt drwy'r Gronfa Dyfodol yr Economi eu cyflawni
- esbonio sut y caiff canlyniadau eu mesur, a
- datblygu gweithdrefnau monitro cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Contract Economaidd.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y canlyniadau posibl i fusnesau os na fyddant yn cydymffurfio â'r Contract Economaidd. Mewn achosion lle nad yw busnesau yn cydymffurfio â gofynion y Contract Economaidd, ac nad ydynt yn derbyn cymorth i fodloni'r gofynion hyn, dylai sancsiynau posibl gynnwys gwell trefniadau monitro, rhoi cyhoeddusrwydd i achosion difrifol o ddiffyg cydymffurfio lle mae budd cyhoeddus yn sgil gwneud hynny, atal cyllid, ac yn y pen draw adfachu cyllid.

**79.** Gan fod ffocws ar faterion sy'n ymwneud ag ansawdd gwaith yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, sydd i'w groesawu, credwn y dylai'r Bwrdd Gwaith Teg fod wedi cael ei sefydlu'n gynharach yn nhymor y Cynulliad hwn er mwyn iddo fod wedi gallu dylanwadu ar ddatblygiad y Cynllun.

## Datblygiad economaidd rhanbarthol

**80.** Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor[98] yn cefnogi'n gryf y ffocws ar ddatblygiad economaidd rhanbarthol yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

**81.** Mae'r heriau economaidd a wynebir yn Aberdaugleddau, yn wahanol i'r rhai yng Nghaernarfon, ac mae'r rheini'n wahanol i'r rhai yn Wrecsam. Os ydym am wneud newidiadau go iawn i fywydau pobl, mae angen i'r dull hwn gael ei deilwra i gyd-fynd â chryfderau a heriau pob cymuned ledled Cymru.

**82.** Rydym yn cydnabod pwynt Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru bod gwahaniaethau, hyd yn oed o fewn ardaloedd rhanbarthol. Er mwyn i dwf rhanbarthol weithio'n effeithiol, rhaid iddo gynnwys yr holl bartneriaid mewn ardal: y sector cyhoeddus, y trydydd sector, y sector busnes a'r gymuned leol.

**83.** Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor[99] yn croesawu penodi'r Prif Swyddogion Rhanbarthol er mwyn darparu arweiniad a ffocws clir. Rydym yn nodi, mewn tystiolaeth i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, i Ysgrifennydd y Cabinet ddweud bod angen gwaith pellach i nodi a oedd angen parthau datblygu economaidd eraill.[100] Hoffem rywfaint o eglurder ynghylch a fydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o ddatblygiad y cynlluniau busnes rhanbarthol. Dylai'r cynlluniau hyn gael eu datblygu ar y cyd â chymunedau a busnesau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu eu hanghenion a'u blaenoriaethau. Rydym yn croesawu datblygiad y prosiect Arfor sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cydweithio ar draws y pedwar cyngor yng Ngorllewin Cymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n darparu £2 filiwn ar gyfer cymorth ysgrifenyddol a buddsoddi fel rhan o'r cytundeb ar gyllideb 2018/19 gyda Phlaid Cymru. Gall Tasglu'r Cymoedd hefyd ddarparu glasbrint defnyddiol ar gyfer gwaith o'r fath a hoffem weld penodoldeb cynllun gweithredu Tasglu'r Cymoedd, gyda chamau gweithredu clir a therfynau amser ar gyfer cyflawni, wedi'i efelychu mewn cynlluniau rhanbarthol eraill.

---

[98] Mae dau Aelod o'r Pwyllgor, Sian Gwenllian AC a Bethan Sayed AC yn credu nad yw'r dull gweithredu rhanbarthol a nodwyd yn ddull datblygu economaidd sydd wedi'i seilio'n ddigonol ar adnoddau ac na ddylai penodiad Prif Swyddogion Rhanbarthol ddilyn ardaloedd Bargeinion Dinesig a Thwf Llywodraeth y DU.

[99] Gweler uchod.

[100] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 14 Chwefror 2018, Cofnod y Trafodion [217-218]

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Prif Swyddogion Rhanbarthol i sicrhau bod y cynlluniau busnes rhanbarthol yn ystyried y gwahaniaethau o fewn rhanbarthau, gan nodi'r camau a fydd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac a fydd o fudd i'r rheini sydd ar yr incwm isaf o fewn rhanbarthau.

**84.** Er ein bod yn croesawu'r dull gweithredu rhanbarthol y mae'r Llywodraeth yn ei amlinellu yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, credwn y dylai wneud mwy o ran yr ysgogiadau sydd o fewn ei rheolaeth uniongyrchol. Un dull sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yw ei gallu i greu swyddi o ansawdd da yn y sector cyhoeddus ledled Cymru. Rydym yn cydnabod bod swyddfeydd Llywodraeth Cymru wedi agor ym Merthyr Tudful, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno ers datganoli, a'u bod yn cyflogi nifer sylweddol o bobl.[101] Mae lleoli swyddi ym Mhontypridd, Trefforest a Wrecsam yn ddiweddar wedi adeiladu ar y dull hwn.[102] Ond mae angen rhagor o fentrau.

**85.** Nid ydym am weld problemau'r DU yn cael eu hailadrodd, lle mae economi Caerdydd yn dod yn sylweddol wahanol i economïau rhannau eraill o Gymru ac ar wahân iddynt. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gwneud mwy i leoli swyddi Llywodraeth Cymru yn yr ardaloedd hynny lle mae'r anghenion economaidd ar eu huchaf ar draws pob rhan o Gymru, ac annog sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i wneud hynny. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi economïau lleol yng Nghymoedd y De, gan gynnwys yn ei saith hyb strategol.[103] Credwn y bydd lleoli swyddi'r sector cyhoeddus yn yr ardaloedd hyn yn helpu i ennyn hyder ynddynt, a fydd yn ei dro yn annog sefydlu busnesau eraill. Rydym yn croesawu'r cyfraniad y bydd hyn yn ei wneud tuag at ddatblygu economïau lleol o ystyried y lefelau uchel o amddifadedd economaidd yn rhai o gymunedau'r Cymoedd a amlinellwyd gan TUC Cymru wrth gynnig y fenter Swyddi Gwell yn Nes at Adref.[104] Dylid mabwysiadu'r dull hwn ar draws rhannau eraill o Gymru i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o ddatblygu economïau cymunedol y tu allan i ardaloedd coridor trefol yr M4.

---

[101] Mae 584.3 o swyddi ym Merthyr Tudful; 285.1 yn Aberystwyth a 404,5 yng Nghyffordd Llandudno, yn ôl adroddiad Llywodraeth Cymru **Cyflwr yr Ystad 2016/17.**

[102] Mae Llywodraeth Cymru, wedi cyhoeddi y bydd Trafnidiaeth Cymru yn cael ei leoli ym Mhontypridd, Awdurdod Refeniw Cymru yn Nhrefforest, ac y bydd pencadlys Banc Datblygu Cymru yn Wrecsam.

[103] Mae **Cynllun Cyflawni Tasglu'r Cymoedd** Llywodraeth Cyrmu yn nodi saith hyb strategol yng Nghymoedd De Cymru – Caerffili/Ystrad Mynach; Cwmbrân; Glynebwy; Merthyr Tudful; Castell-nedd; Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr; a Phontypridd/Trefforest.

[104] Cyngres Undebau Llafur Cymru, **Swyddi Gwell yn Nes at Adref**

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei Strategaeth Leoli i sicrhau bod swyddi'r sector cyhoeddus yn cael eu lledaenu'n well ledled Cymru, ac yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Dylai hyn gynnwys nodi sut y bydd y dull gweithredu hwn yn denu ac yn adleoli swyddi i'r hybiau strategol yng Nghymoedd y De, ac i rannau eraill o Gymru, yn arbennig yr ardaloedd hynny yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a fydd yn colli Cyllid Strwythurol yr UE.

## Yr economi sylfaen

**86.** Mae'r economi sylfaen yn darparu'r sail er mwyn i'n heconomi a'n cymunedau allu datblygu a thyfu. Rydym yn croesawu ffocws ar y pedwar sector sylfaen yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Gwyddom fod twristiaeth, bwyd, manwerthu a gofal; yn aml yn cynnig gwaith cyflog isel, o ansawdd isel. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y swyddi sy'n cael eu creu yn swyddi o safon uchel, gan roi incwm ac ansawdd bywyd da i bobl.

**87.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i flaenoriaethu sectorau sylfaen penodol yn hytrach na chynnig gweithio'n wahanol ar draws yr holl economi sylfaen. Credwn felly y dylai'r dull hwn fod yn fan cychwyn i ymgysylltu â'r newidiadau mwy pellgyrhaeddol y mae angen eu gwneud.

**88.** Er ein bod yn deall bod dull gweithredu rhanbarthol ar ddatblygu economaidd yn debygol o flaenoriaethu sectorau gwahanol ar draws ardaloedd gwahanol i ryw raddau, nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y dystiolaeth ar gyfer blaenoriaethu gwahanol rannau o'r economi sylfaen yn y Cynllun Gweithredu Economaidd a Chynllun Cyflawni Tasglu'r Cymoedd. Yn benodol, nid ydym yn glir pam mae'r sectorau adeiladu ac iechyd wedi'u cynnwys yng Nghymoedd De Cymru ond nid ar draws rhannau eraill o Gymru. Hoffem hefyd eglurder ynghylch pam nad yw'r sectorau adeiladu, ynni ac iechyd wedi'u blaenoriaethu yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, fel y maent yng Nghynllun Cyflawni Tasglu'r Cymoedd.

**89.** Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet lawer o bwyslais ar rôl y cynlluniau galluogi i gyflawni canlyniadau gwaith teg yn ei bedwar sector sylfaen. Credwn y bydd angen i'r rhain chwarae rhan arwyddocaol yn y broses o fynd i'r afael â'r tâl ac amodau gwaith cymharol wael a wynebir gan y gweithlu benywaidd yn bennaf.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod cynlluniau galluogi Llywodraeth Cymru ar gyfer y pedwar sector sylfaen yn cynnwys amlinelliad clir o'r gwelliannau i dâl, sicrwydd swyddi a hyfforddiant sy'n ofynnol ganddi yn gyfnewid am y cymorth ehangach y bydd yn ei ddarparu i'r sectorau.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pam mae'r sectorau adeiladu, ynni ac iechyd yn cael eu hystyried yn sectorau sylfaen sy'n cael blaenoriaeth o ran buddsoddi ynddynt yn y Cymoedd ond nid mewn rhannau eraill o Gymru.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai cynlluniau galluogi Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y cymorth y mae'n ei darparu i sectorau sylfaen yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n wynebu'r gweithlu benywaidd yn bennaf.

**90.** Yn y penodau a ganlyn, rydym yn gwneud nifer o argymhellion a fyddai, pe baent yn cael eu gweithredu, yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n gweithio yn y sectorau sylfaen, yn enwedig o ran symud ymlaen, cyflog ac ansawdd swyddi.

# 3. Cyflogadwyedd

Rydym wedi ein siomi gan yr oedi cyn cyhoeddi'r Cynllun Cyflogadwyedd, gan fod hon yn ddogfen hollbwysig wrth lunio'r ymyriadau i helpu pobl i gael swyddi a symud ymlaen mewn cyflogaeth. Rydym yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu cymorth i bobl symud ymlaen yn y gwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai sydd ar gyflogau isel, neu sy'n gweithio'n rhan amser.

**91.** Nododd Llywodraeth Cymru fod “cyflogadwyedd yn un o'r pum maes blaenoriaeth” yn Ffyniant i Bawb.[105] Ni chyhoeddwyd y Cynllun Cyflogadwyedd tan ar ôl inni orffen cymryd tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn felly nid oedd modd inni brofi hynny gyda rhanddeiliaid. Fodd bynnag, trafodwyd yr hyn yr oedd rhanddeiliaid eisiau ei weld yn y Cynllun Cyflogadwyedd pan gafodd ei gyhoeddi. Roedd cysylltiad agos rhwng yr elfen hon o'r ymchwiliad a'r gwaith a wnaethom ar **Cymunedau yn Gyntaf – Gwersi a Ddysgwyd**.

**92.** Yn yr adroddiad hwnnw, tynnwyd sylw at yr anawsterau o ran asesu effaith dirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben yn raddol, heb allu gweld y Cynllun Cyflogadwyedd. Mae hyn wedi golygu bod awdurdodau lleol wedi gorfod gwneud penderfyniadau dros dro ynghylch trefniadau pontio ar gyfer prosiectau cyflogadwyedd Cymunedau yn Gyntaf heb weld y darlun llawn.[106]

**93.** Esboniodd y Gweinidog yr oedi cyn cyhoeddi'r Cynllun Cyflogadwyedd:

> “Roedd y Llywodraeth yn glir iawn bod yna sequencing i fod o ran pryd oedd y pethau yma'n dod, achos maen nhw i gyd i fod i uno gyda'i gilydd…nid oedd e'n bosib i ni ddod mas gydag employability action plan cyn bod yr economic action plan wedi dod allan. ni fyddai hynny wedi gwneud dim synnwyr.”[107]

**94.** Dywedodd Yr Athro Caroline Lloyd wrthym:

---

[105] ELGC(05)-03-18 Papur 2, Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, paragraff 28

[106] Adroddiad Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, **Cymunedau yn Gyntaf – Yr Hyn a Ddysgwyd**, Hydref 2017, paragraff 28

[107] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [148]

> "Skills policy is an important part of any strategy aimed at tackling low pay and job insecurity, but in isolation the evidence suggests it has little impact on job quality."[108]

**95.** Tynnodd Sefydliad Bevan,[109] Cyngor Sir y Fflint[110] a Chwarae Teg[111] oll sylw at bwysigrwydd cymorth cyflogadwyedd i helpu pobl i gael swyddi o ansawdd da. Dywedodd Sefydliad Bevan, er bod cyflogadwyedd yn bwysig, bod angen canolbwyntio hefyd ar symud ymlaen yn y gwaith, a bydd angen buddsoddi mewn sgiliau a chyngor, cymorth a chyfarwyddyd gyrfaoedd er mwyn ei gyflawni ac mae hynny'n dod yn ôl at ansawdd swyddi.[112]

**96.** Dywedodd Cyngor Sir y Fflint wrthym y dylai dull gweithredu mwy rhanbarthol ar gyflogadwyedd fynd law yn llaw â'r agenda twf cynhwysol ehangach:

> "…redesigning and devolving the strategic framework for pre-employment programmes to create an integrated approach to meeting the needs of individuals and the labour market…"[113]

**97.** Galwodd Sefydliad Joseph Rowntree am gymorth mwy arbenigol i'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur a chymorth o ansawdd uchel i'r rhai sy'n gweithio i leihau tlodi incwm. Dywedodd hefyd fod canolbwyntio ar bobl â lefel sgiliau isel yn fwy effeithiol na chanolbwyntio ar ben uchaf y sbectrwm sgiliau.[114]

**98.** Cododd Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru yr anawsterau ychwanegol y mae'r rheini mewn cyflogaeth ansicr, ac yn enwedig y rheini sy'n hunangyflogedig, yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad i hyfforddiant a chymorth i symud ymlaen.[115]

---

[108] **MEW13 Yr Athro Caroline Lloyd, Prifysgol Caerdydd**, paragraff 2.3

[109] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [32]

[110] **MEW05 Cyngor Sir y Fflint**, paragraff 10.7

[111] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [151]

[112] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [32]

[113] **MEW05 Cyngor Sir y Fflint**, paragraff 4.4

[114] **MEW07 Sefydliad Joseph Rowntree**, paragraffau 9-10

[115] **MEW09 Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru**, paragraff 3.7

**99.** Dywedodd Cyngor ar Bopeth wrthym fod mwy i gymorth cyflogadwyedd na gwella sgiliau pobl; gall hefyd ymwneud ag ymdrin â heriau ym mywyd rhywun.[116] Yn ein grwpiau ffocws, clywsom hyn yn cael ei adleisio gan brofiad o fywyd go iawn:

> "How are you going to think about training and qualifications when you're spending all of your energy thinking about feeding your family...you're literally just surviving."[117]

**100.** Roedd Cyngor ar Bopeth yn canmol y dull gweithredu a fabwysiadwyd yn flaenorol gyda Cymunedau am Waith, a ddisgrifiwyd ganddo fel newid pwyslais. Roedd hefyd yn croesawu'r ffaith bod pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd wedi'u blaenoriaethu yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.[118] Dywedodd Sefydliad Bevan fod gan Gymru hanes da o fynd i'r afael â phroblemau cyflogaeth unigolion, ond roedd y darlun yn fwy cymysg wrth edrych ar sut yr oedd busnesau'n gwneud penderfyniadau buddsoddi. Roeddent yn teimlo bod twll mawr yn y canol:

> "...around the jobs, the labour market, progressions, what happens within work places"[119]

**101.** Teimlai Sefydliad Bevan fod y prosiect Swyddi Gwell yn Nes at Adref yn agor yr agenda hon. Er ei fod yn teimlo bod hyn yn gyffrous dywedodd fod angen gwneud llawer mwy o waith ar hyn.[120] Disgrifiodd TUC Cymru y prosiect fel un a oedd yn canolbwyntio ar gaffael ac ailgyfeirio cyfleoedd buddsoddi a gweithgaredd economaidd yn gyffredinol.[121]

**102.** Tynnodd yr Athro Anne Green sylw at bwysigrwydd darparu cymorth i alluogi rhywun i gynnal cyflogaeth, yn arbennig ar gyfer pobl sydd wedi bod yn ddi-waith ers peth amser. Dywedodd hefyd fod swyddi ansicr yn gwneud hyn yn anoddach. Cysylltodd bwysigrwydd cynnal cyflogaeth gyda symud ymlaen yn y gwaith, a

[116] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [21]

[117] **Nodiadau o gyfarfodydd y Grŵp Ffocws**

[118] **MEWN04 Cyngor ar Bopeth**, paragraff 2.8

[119] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [24]

[120] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [24]

[121] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [17]

dywedodd fod angen llwybr hwy, ac yna wasanaethau i gefnogi a chynghori pobl ar ôl iddynt gael gwaith.[122]

**103.** Roedd Sefydliad Bevan yn un o nifer o randdeiliaid a ddywedodd wrthym nad yw mynediad i swydd yn ddigon, a bod angen canolbwyntio ar symud ymlaen yn y gwaith a chadw pobl. Dywedodd wrthym:

> "There's no point getting people into jobs that they lose after a fortnight."[123]

**104.** Cadarnhaodd y Gweinidog, fel rhan o Cymru'n Gweithio, y byddai cymorth yn cael ei ddarparu am o leiaf chwe mis ar ôl i bobl ymuno â'r gweithle. Dywedodd hefyd y byddai monitro pobl ar ôl iddynt gael gwaith yn rhan o'r contract.[124] Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd fel rhan o ddatblygu Cymru'n Gweithio,[125] eu bod wedi ceisio ystyried arferion gorau'n ymwneud â data, a rhan o hynny fydd ystyried a yw pobl yn dal i fod yn gweithio chwe mis yn ddiweddarach.[126]

**105.** Galwodd Sefydliad Bevan am ffenestr siop syml i bobl gael mynediad rhwydd i'r ystod o wahanol gynlluniau cyflogaeth. Yn benodol, roedd am weld rhyngwyneb effeithiol rhwng cynlluniau Llywodraeth y DU a rhai Llywodraeth Cymru.[127] Galwodd am gynllun cynhwysfawr sy'n dwyn ynghyd bob elfen o gymorth (gan gynnwys y rhaglen Gwaith ac Iechyd[128]), sy'n cynnwys cyflogwyr yn y gwaith o'i ddylunio a'i ddarparu ac sy'n adlewyrchu amodau'r farchnad lafur leol.[129]

---

[122] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [179]

[123] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [108]

[124] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [163]

[125] Y rhaglen gyflogadwyedd sengl newydd a fydd yn disodli'r gyfres bresennol o raglenni cyflogadwyedd, megis ReAct a Growth Jobs Wales yng Nghymru, yw Cymru'n Gweithio. Bydd yn weithredol o fis Ebrill 2019 ymlaen.

[126] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [171]

[127] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [39]

[128] Rhaglen Llywodraeth y DU yw'r rhaglen Gwaith ac Iechyd sy'n darparu cefnogaeth i grwpiau o bobl wedi'u targedu wrth ddod o hyd i waith.

[129] **MEW11 Sefydliad Bevan**, paragraff 21

Roedd Chwarae Teg[130] a Sefydliad Joseph Rowntree[131] ill dau yn cefnogi galwadau am gydweithio agosach rhwng yr holl asiantaethau, ar lefel genedlaethol a datganoledig.

**106.** Cefnogwyd y farn hon gan gyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws, lle y dywedodd Gweithiwr Cymorth wrthym:

> "I think there needs to be more of a structured way of working between the job centres and local organisations in the 3rd sector, providing CV, job search, upskilling support."[132]

**107.** Roedd Unsain Cymru am i'r Cynllun Cyflogadwyedd fod yn bwrpasol ac wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn. Dywedodd, pe bai angen hyfforddiant neu gymorth ar bobl, y dylai gael ei ddarparu drwy raglen Cymru'n Gweithio, p'un a oedd hwn yn gwrs rhifedd neu dalu am wersi gyrru.[133]

**108.** Dywedodd y Gweinidog wrthym droeon am bwysigrwydd darpariaeth fwy personol, sy'n ystyried amgylchiadau ac anghenion unigol:[134]

> "Un o'r pethau rydym ni eisiau ei wneud yw sicrhau ein bod ni'n ymateb i'r hyn mae'r unigolyn ei angen, ac ein bod ni'n gweithredu ein polisïau ni o gwmpas yr unigolyn."[135]

**109.** Cododd Cyngor ar Bopeth bryderon ynglŷn â dirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben yn raddol a'r effaith y gallai hyn ei gael ar gyflawni rhaglenni fel Cymunedau am Waith.[136] Roedd yn arbennig o bryderus am ddibyniaeth Cymunedau am Waith ar strwythurau a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf.[137]

---

[130] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [178]

[131] **MEW07 Sefydliad Joseph Rowntree**, paragraff 9-10

[132] **Nodiadau o gyfarfodydd y Grŵp Ffocws**

[133] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [129]

[134] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [135 ac 167]

[135] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [150]

[136] Rhaglen wedi'i thargedu gan Lywodraeth Cymru yw Cymunedau am Waith i helpu'r rhai sydd ymhell o'r farchnad lafur i ddod o hyd i waith.

[137] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [106]

**110.** Clywsom gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod gan fusnesau bach a chanolig rôl hanfodol mewn cyflogadwyedd, lle mae 92% o symudiadau o anweithgarwch economaidd yn golygu symud i swydd mewn busnesau bach a chanolig neu hunangyflogaeth (17% ohonynt yn hunangyflogedig). Roeddent o'r farn bod angen adlewyrchu'r realiti hwn yn y polisi economaidd.[138]

**111.** Clywsom am effaith gadarnhaol rhaglenni Twf Swyddi Cymru ar fusnesau bach, sydd yn ogystal â darparu cyflogaeth wedi helpu i dyfu busnesau. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru ei fod yn gobeithio y byddai'r dull gweithredu newydd yn cymryd y rhannau gorau o Twf Swyddi Cymru ac yn eu gwneud yn briodol ar gyfer pob oed.[139]

## Cyngor ar yrfaoedd

**112.** Clywsom fod ansawdd cyngor ar yrfaoedd yn hanfodol, nid yn unig yn yr ysgol, ond drwy gydol bywyd gwaith. Dywedodd Sefydliad Joseph Rowntree wrthym fod natur y farchnad lafur yng Nghymru yn golygu bod angen i bobl gael mynediad i hyfforddiant ac ailhyfforddiant drwy gydol eu bywyd gwaith.[140]

**113.** Dywedodd Sefydliad Bevan:

> "There's a clear need for better advice for all young people, not just the ones prioritised in the Welsh Government's remit letter to the careers service, but crucially for adults. So, for people who are changing careers, returning to work, want out of their awful job in whatever—. We have a big gap, and, over and over again, the work that we're doing is pointing to careers advice at all ages in the labour market—of all ages of workers—is absolutely key."[141]

**114.** Dywedodd Dr Alison Parken fod cyfyngiadau o hyd i gyngor ar yrfaoedd, gyda menywod yn aml yn cael eu sianelu i sectorau lle ceir cyflogau isel. At hynny, roedd hi'n teimlo bod angen rhoi mwy o werth ar yr hyn a elwir yn sectorau

[138] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [288-289]

[139] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [326, 328, 329 a 331]

[140] Ymysg y rhanddeiliaid a gododd hyn yn cynnwys Cyngor Abertawe (paragraff 4.4) a Joseph Rowntree para 11

[141] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [66]

menywod.[142] Disgrifiodd Faromedr Cyflog Cyfartal WAVE (Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi) a ddefnyddiwyd mewn cyngor ar yrfaoedd i ddangos dwysedd dynion a menywod mewn dros 300 o alwedigaethau a'r enillion tebygol yn yr hyn a elwir yn waith menywod. Teimlai y gellid ei ddatblygu ymhellach i'w ddefnyddio gan wasanaethau cyngor ar yrfaoedd.[143] Galwodd hefyd am fwy o offer ar-lein sy'n dangos pa sgiliau a chymwysterau sydd eu hangen ar gyfer swyddi, ochr yn ochr â gwybodaeth am gyflog cyfartalog a chyfleoedd.[144]

**115.** Tynnodd Dinas a Sir Abertawe[145] sylw at bwysigrwydd datblygu sgiliau entrepreneuraidd mewn ysgolion i helpu i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid. Dywedodd pobl ifanc yn ein grwpiau ffocws wrthym eu bod yn teimlo nad oedd y sgiliau i'w helpu i ddod o hyd i waith, i reoli arian a byw bywyd annibynnol, iach yn cael eu dysgu iddynt yn yr ysgol.[146]

**116.** Cyfeiriodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru at ei ymchwil a ganfu nad oedd gan Gyrfa Cymru ddigon o adnoddau ac nad yw'n gallu hwyluso'r cysylltiadau hynny rhwng busnesau ac ysgolion.[147] Rhoddodd Helen Walbey enghreifftiau personol o anawsterau i fusnesau bach wrth ymgysylltu ag ysgolion. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, teimlai ei bod yn bwysig bod gan wasanaethau cyngor ar yrfaoedd ac ysgolion yn ymgysylltu â busnesau bach.[148]

**117.** Roedd yn ddiddorol clywed gan Gyngor Gwynedd fod cynlluniau “ar y gweill” ar draws nifer o bartneriaid fel rhan o Fid Twf Gogledd Cymru i sefydlu gwasanaeth cyflogaeth gyda chyngor ar yrfaoedd ar gyfer y rhanbarth.[149]

---

[142] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [144]

[143] **MEW16 Dr Alison Parken**

[144] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [217]

[145] **MEW02 Dinas a Sir Abertawe**, paragraff 4.3

[146] **Nodiadau o gyfarfodydd y Grŵp Ffocws**

[147] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [348]

[148] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [350]

[149] **MEW08 Cyngor Gwynedd**, paragraff 2.13

## Amrywiaeth a chyflogadwyedd

**118.** Soniodd Dr Alison Parken am yr angen i roi mwy o bwyslais ar greu mwy o amrywiaeth mewn sectorau gwerth uchel".[150]

**119.** Cefnogwyd hyn gan Chwarae Teg, a thynnodd sylw at ei raglen gyrfaoedd amgen "Not Just for Boys" sy'n ceisio creu mwy o fodelau rôl, ac yn helpu merched a bechgyn i ddeall yr ystod o yrfaoedd a'r diwydiannau sydd ar gael iddynt.[151]

**120.** Clywsom gan Helen Walbey am y prosiect "Model Rôl Syniadau Mawr", ble mae modelau rôl yn mynd i ysgolion i siarad am eu gwaith. Disgrifiodd sut mae'n helpu i chwalu rhwystrau'n ymwneud â rhywedd ynghylch y gwaith y gall pobl ei wneud mewn sectorau.[152]

**121.** Dywedodd Dr Alison Parken wrthym nad oedd ffon hud i ddelio â'r anawsterau y mae menywod yn eu hwynebu, a dadleuodd ei fod yn ymwneud ag:

> "…unpicking the cultural assumptions that mean we don't look in the places where we can help women overcome the barriers that keep them lower down the ladders."[153]

**122.** Tynnodd sylw at ddau fater: menywod nad ydynt yn symud ymlaen i lefelau uwch mewn sefydliadau neu sectorau; a pholisi lles sy'n cyfyngu ar enillion menywod. Dywedodd fod menywod yn aml yn gweithio islaw eu cymwysterau/sgiliau mewn gwaith rhan amser, gyda chyflog isel, a thybir bod hynny'n dderbyniol.[154] Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod angen nodi pwy sy'n gyfrifol am wthio'r newid diwylliannol hwn.[155]

**123.** Tynnodd Chwarae Teg sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Dywedodd, er y gallai rhagfarn anymwybodol fod yn

[150] **MEW16 Dr Alison Parken**

[151] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [215]

[152] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [347]

[153] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [170]

[154] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [169-170]

[155] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [348]

boblogaidd, ceir dulliau neu ymyriadau eraill sy'n gallu herio rheolwyr ac arweinwyr i ystyried sut beth yw rôl a'r hyn sydd ei angen er mwyn ei chyflawni.[156]

**124.** Yn ein grŵp ffocws, soniodd rhieni yn benodol am yr her o ddod o hyd i gyflogaeth hyblyg, a dywedodd un rhiant wrthym:

> "[It is] not really an issue to find a job, but it's difficult to find an accessible, flexible job."[157]

**125.** Teimlai Helen Walbey fod gwersi i'w dysgu o'r canolfannau busnesau bach yn America, sy'n canolbwyntio ar gefnogi menywod i fentro i fyd busnes. Disgrifiodd eu hyblygrwydd, megis bod ar agor gyda'r nos ac ar benwythnosau, er mwyn i bobl allu manteisio arnynt ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy. Nid ydynt wedi'u lleoli yn adeiladau'r Llywodraeth, ond mewn lleoliadau cymunedol, gan eu gwneud yn haws cael gafael arnynt. Credai y gallai dull gweithredu tebyg weithio yng Nghymru, a gallai helpu amrywiaeth o wahanol grwpiau (nid dim ond menywod) na allent gael mynediad i gymorth busnes traddodiadol.[158]

**126.** Pan gyflwynwyd awgrymiadau Helen Walbey i'r Gweinidog, dywedodd wrthym y byddai'r gefnogaeth a ddarperir "hyd yn oed yn fwy individualistic na hynny". Dywedodd y byddai mwy o hyblygrwydd na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i ymateb i anghenion unigolion.[159] Dywedodd wrthym hefyd mai rhan o swyddogaeth Cymru'n Gweithio fyddai "estyn allan i fenywod yn y cymunedau".[160]

**127.** Tynnodd Cyngor ar Bopeth sylw at bwysigrwydd helpu cyflogwyr i gefnogi gweithwyr â chyflyrau iechyd ac anableddau.[161] Galwodd am hyrwyddo'r rhaglen Mynediad i Waith yn well, gan ddweud bod yr addasiadau y mae angen eu gwneud yn aml yn fach ac nad ydynt yn gostus. Roedd yn teimlo y byddai'r gefnogaeth hon yn arbennig o ddefnyddiol i fusnesau newydd.[162]

---

[156] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [225]

[157] **Nodiadau o gyfarfodydd y Grŵp Ffocws**

[158] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [342-345]

[159] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [167]

[160] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [169]

[161] **MEWN04 Cyngor ar Bopeth Cymru**, paragraff 2.9

[162] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [104]

**128.** Cefnogwyd y galwadau hyn hefyd gan waith ymchwil academaidd y cyfeiriwyd ato gan Dr Alison Parken. Dywedodd wrthym am waith a wnaed gan Ysgol Fusnes Caerdydd ar anabledd yn y gwaith. Un o'r prif ganfyddiadau oedd yr angen am fwy o gymorth i fusnesau bach a chanolig i ddeall y rheol addasiadau rhesymol.[163] Nid yw busnesau yn gwybod beth y gallant ei wneud, na sut y gall hyn gael ei ariannu neu ei gefnogi.[164] Roedd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn cefnogi hyn, gan ddweud bod ymwybyddiaeth o gynlluniau o'r fath yn isel. Dywedodd, oni bai bod mwy o ymwybyddiaeth, na fyddai'r ymyriadau'n digwydd.[165]

**129.** Clywsom gan Helen Walbey am ei phrofiad o ddarparu lleoliadau gwaith i bobl anabl. I ddechrau, roedd hi'n meddwl y byddai'n anodd, ond gyda chymorth, llwyddodd i drefnu lleoliad, a arweiniodd at waith cyflogedig yn y pen draw. Fel busnes bach, meddai, roedd hi'n gallu bod yn hyblyg mewn ffordd a oedd yn cefnogi'r lleoliadau hyn orau. Amlygodd hefyd fod busnesau bach a chanolig wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau, sy'n rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o effaith rhaglenni a chymorth o'r fath.[166]

**130.** Dywedodd Cyngor ar Bopeth wrthym y dylai unrhyw gynllun cyflogadwyedd gynnwys camau i godi ymwybyddiaeth o hawliau cyflogaeth. Roedd yn teimlo bod hyn yn broblem i gyflogwyr a gweithwyr fel ei gilydd.[167] Mae'n galw am ddiffiniad statudol o hunangyflogaeth, a dywedodd wrthym fod cymhlethdod cynyddol y farchnad lafur yn creu mwy o risgiau. O ganlyniad, mae angen gwneud mwy o waith ar hawliau cyflogaeth, gan gynnwys sicrhau eu bod yn cael eu gorfodi a'u monitro'n fwy effeithiol.[168] Tynnodd TUC Cymru hefyd sylw at y ffaith nad yw'r rheiny mewn cyflogaeth ansicr ac ansefydlog yn aml yn gwybod eu

[163] Rhaid i gyflogwyr wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw gweithwyr ag anableddau, neu gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, dan anfantais sylweddol wrth wneud eu swyddi. Mae hyn yn cynnwys yr holl weithwyr, gan gynnwys hyfforddeion, gweithwyr contract a phrentisiaethau.

[164] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [224]

[165] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [298]

[166] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [294]

[167] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [36]

[168] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [74]

hawliau. Dywedodd nad yw pobl weithiau hyd yn oed yn sylweddoli eu bod ar gontractau dim oriau.[169]

## 3. 1. Symud ymlaen yn y gwaith

**131.** Roedd rhanddeiliaid a bwysleisiodd yr angen am ganolbwyntio ar symud ymlaen yn cynnwys yr Athro Anne Green, Dr Paul Sissons a Dr Neil Lee,[170] a Dr Alison Parken.[171]

**132.** Yn hanesyddol ni fu ffocws ar symud ymlaen mewn rhaglenni cymorth cyflogaeth; fodd bynnag, mae hyn yn newid yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol.[172] Mae hyn yn golygu nad oes llawer o waith wedi ei wneud i werthuso'r hyn sy'n gweithio. Fodd bynnag, clywsom fod y gwaith gwerthuso prin a wnaed yn awgrymu mai rhaglenni sy'n mynd i'r afael ag anghenion cyflogwyr a gweithwyr mewn un rhaglen sydd fwyaf effeithiol.[173]

**133.** Dywedodd Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru fod tri chwarter y bobl mewn gwaith â chyflog isel yn dal i fod mewn gwaith cyflog isel 10 mlynedd yn ddiweddarach, a bod parhad cyflog isel a "diffyg ffocws ar gynnydd" yn ffactorau allweddol mewn lefelau tlodi yn y gwaith a gostyngiad mewn cynhyrchiant.[174] Gwna dri argymhelliad i helpu i wella symud ymlaen yn y gwaith:

- Targedu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd at gyflogwyr cyflog isel;
- Gwasanaeth cynnydd mewn-gwaith;
- Gwasanaethau cymorth busnes i helpu i fynd i'r afael â'r diffyg dealladwy o allu adnoddau dynol a rheoli arbenigol mewn llawer o fusnesau bach yng Nghymru.[175]

**134.** Bydd angen i gymorth hefyd ystyried symud ymlaen yn y gwaith ar draws sectorau yn ogystal ag o fewn sector. Tynnodd yr Athro Caroline Lloyd sylw at y ffaith fod symud ymlaen mewn rhai sectorau megis manwerthu a lletygarwch yn

[169] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [92]

[170] **MEW12 Yr Athro Anne Green, Dr Paul Sissons a Dr Neil Lee,** paragraff 8

[171] **MEW16 Dr Alison Parken**

[172] **MEW12 Yr Athro Anne Green, Dr Paul Sissons a Dr Neil Lee**, paragraff 11

[173] **MEW12 Yr Athro Anne Green, Dr Paul Sissons a Dr Neil Lee**, paragraff 12

[174] **MEW09 Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru**, paragraff 2.1

[175] **MEW09 Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru**, paragraff 2.6

aml yn golygu fawr ddim o ran cyflog. Amlygodd hefyd y cyfleoedd hynod gyfyngedig i weithwyr rhan amser gael eu dyrchafu, yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio mewn cwmnïau bach.[176]

**135.** Dywedodd Dr Alison Parken fod cyfleoedd i symud ymlaen yn y gwaith yn allweddol mewn swyddi yn yr economi sylfaen, fel nad oes raid i bobl symud i'r ochr er mwyn cynyddu oriau neu gael cyflog uwch. Galwodd am:

> "….a bit of infrastructure around them in terms of help from skills councils and careers advisers, and better understanding of transferrable skills and on-the-job learning that will help people progress up through organisations, and stop considering people at the bottom end as perfectly happy to be stuck there."[177]

**136.** Dywedodd wrthym fod bwlch o ran sut i greu ysgolion swyddi mewn swyddi strwythur gwastad.[178]

**137.** Clywsom y gellid gwneud rhagor mewn rhai sectorau megis addysg, iechyd ac awdurdodau lleol, i ddatblygu llwybrau clir ar gyfer symud ymlaen yn y gwaith.[179] Nododd Dr Alison Parken nad oes llwybr clir rhwng cynorthwyydd addysgu ac addysgu; a bod y llwybr o gynorthwyydd gofal iechyd i nyrsio wedi diflannu oherwydd bod angen cymhwyster gradd er mwyn bod yn nyrs.[180] Ategwyd hyn gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, a ddisgrifiodd economi ddigyswllt, lle nad ystyrir bod gofal cymdeithasol yn arwain at yrfa yn y byd nyrsio. Dywedodd fod angen gwneud mwy er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod y gallent ddilyn trywydd i rywle gwahanol i'w man cychwyn.[181]

**138.** Pwysleisiodd Dr Alison Parken bwysigrwydd deall gwir brofiadau pobl o gyflogaeth a'r hyn y mae'n ei olygu. Dywedodd fod rhoi data a gwybodaeth am gyflogwyr ar hyn, yn eu helpu i ddeall pa newidiadau y gall fod angen iddynt eu

---

[176] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [180]

[177] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [141]

[178] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [180]

[179] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [181]

[180] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [146-147]

[181] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [336]

gwneud. Cyfeiriodd hefyd at dystiolaeth na fydd cyflogwyr yn gweithredu ar wybodaeth am sectorau neu alwedigaethau,[182] ond byddant yn gweithredu os gallant weld yr hyn sy'n digwydd yn eu sefydliad eu hunain. Dywedodd:

> "....having that evidence has mobilised employers to make deep and long-lasting changes to workforce planning and workforce development."[183]

**139.** Galwodd am sicrhau bod y Strategaeth Cyflogadwyedd yn gosod gofynion ar sefydliadau'r sector cyhoeddus i ymgymryd â'r dadansoddiad hwn.[184] Dywedodd fod y rhaglen Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE) yn dangos yr effaith y gall cymorth penodedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ei chael ar y cyflogwr a'r gweithiwr, ond bod angen adnoddau i gefnogi'r gwaith hwn.[185]

**140.** Galwodd yn gryf iawn ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod sefydliadau'n bodloni Dyletswyddau'r Sector Cydraddoldeb, ac i fonitro cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hyn yn fwy.[186]

**141.** Roedd gennym ddiddordeb yn yr effaith gadarnhaol a gafodd y rhaglen WAVE ar wella cyfleoedd i symud ymlaen yn y gwaith a chyfleoedd cyflogaeth. Gweithiodd Prifysgol Caerdydd â chyflogwyr yn y sector cyhoeddus i asesu anghydraddoldebau o ran cyflogaeth a chyflogau mewn strwythur cyflogaeth.[187] O ganlyniad i'r rhaglen, dywedodd Dr Parken:

> "....employers have, or are in the process of, updating recruitment practice, redesigning personal development reviews, undertaking gender bias training, developing line managers to spot progression opportunities, and bolstering skills, including literacy skills where

[182] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [229]

[183] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [174]

[184] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [175]

[185] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [184]

[186] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [230]

[187] **MEW16 Dr Alison Parken**

necessary, in order to help employees progress – often into areas where recruitment has been challenging."[188]

**142.** Mae rhai o effeithiau cadarnhaol y prosiect hwn wedi cynnwys:

- 80 o weithwyr banc nyrsio'n symud i rolau nyrsio a gofal iechyd parhaol;
- newidiadau mewn system recriwtio mewn sefydliad addysg uwch a arweiniodd at nifer fwy o fenywod yn cael eu penodi i rôl oruchwylio;
- cyflogwyr yn gweithio'n agos gyda Cyngor ar Bopeth a'r Ganolfan Byd Gwaith er mwyn iddynt hwy a'r gweithiwr allu deall faint yn fwy y gallent ei ennill yr wythnos heb golli swm helaeth o arian lles a allai gael effaith sylweddol ar incwm yr aelwyd.[189]

**143.** Pwysleisiodd yr Athro Ann Green bwysigrwydd gwerthuso rhaglenni'n effeithiol, a theimlai ei bod yn ofynnol gwneud gwaith olrhain a gwaith hydredol a bod angen neilltuo adnoddau ar gyfer y gwaith hwn.[190]

**144.** Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wrthym y gallai busnesau bach a chanolig chwarae rhan allweddol mewn perthynas â chyfleoedd i symud ymlaen yn y gwaith.[191] Dywedodd Helen Walbey fod y sector hwn yn ymgysylltu'n effeithiol â dysgu seiliedig ar waith a datblygu gyrfa. Dywedodd fod datblygu staff yn helpu i dyfu busnes, a bod busnesau bach yn dueddol o gael gwell llwyddiant o ran cadw staff.[192]

**145.** Galwodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru hefyd am ragor o brentisiaethau lefel uchel, a fyddai'n gwella cyfleoedd i symud ymlaen yn y gwaith. Dywedodd fod angen rhagor o waith i helpu i greu prentisiaethau lefel 4 a 5 mewn sectorau bach a chanolig.[193]

---

[188] **MEW16 Dr Alison Parken**

[189] Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [183] a **MEW16 Dr Alison Parken**

[190] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [185]

[191] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [287]

[192] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [290]

[193] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [314]

**146.** Dywedodd Dr Alison Parken:

> "Only the employer can progress employees through their grade hierarchy. To realise the Economic Plan goals, there must be a concerted effort to establish collaborative networks between employers, job and career advisors, training providers and trades unions to examine and recommend how to create horizontal and vertical job ladders in different occupational areas."[194]

**147.** Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod symud ymlaen yn cael ei ystyried yn rhan o Dasglu'r Cymoedd. Yn benodol, mae darn o waith sy'n edrych ar y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yn trafod a ellir achredu pobl am waith gofal anffurfiol, yn ogystal ag edrych ar gyfleoedd i symud ymlaen mewn gyrfa ar ôl i rywun ymuno â'r sector.[195]

**148.** Clywsom nad cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad yn unig yw cefnogi cyfleoedd i symud ymlaen yn y gwaith – mae'n gyfrifoldeb i gyflogwyr hefyd. Dywedodd y Gweinidog fod hyn yn rhan o'r Contract Economaidd a amlinellwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet. Fodd bynnag, dywedodd y gallai Llywodraeth Cymru helpu gyda materion megis buddsoddi mewn offer addysg bellach na all cwmnïau fuddsoddi ynddo o bosibl, ond y gallant wedyn gael mynediad iddynt. Dywedodd fod hynny'n enghraifft o ble, yn ei thyb hi, y gall ac y dylai'r Llywodraeth gamu i'r adwy.[196]

## 3. 2. Ein barn ni

**149.** Yn ystod ein gwaith ar Cymunedau yn Gyntaf yn 2017, clywsom am bwysigrwydd y Cynllun Cyflogadwyedd o ran llywio penderfyniadau ynghylch pa brosiectau fyddai'n parhau ar ôl i Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben. Mae'n siomedig iawn mai dim ond ym mis Mawrth 2018 y cyhoeddwyd y Cynllun Cyflogadwyedd, gan na fydd wedi gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol mewn perthynas â'r rhaglen.

**150.** Rydym yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog am yr angen am rywfaint o goreograffi rhwng datblygu'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun

---

[194] **MEW16a Dr Alison Parken**

[195] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [53]

[196] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [181]

Cyflogadwyedd, ond rydym yn pryderu am yr effaith y bydd yr oedi wedi'i chael ar ddarparu cymorth cyflogadwyedd i bobl.

**151.** Er nad ydym wedi cael y cyfle i brofi'r Cynllun Cyflogadwyedd gyda rhanddeiliaid, fel y bu modd inni ei wneud gyda'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, credwn fod rhai o'n sylwadau cyffredinol am yr olaf hefyd yn berthnasol i'r cyntaf. Mae'r camau gweithredu yn eithaf annelwig mewn mannau ac nid oes amserlenni clir ar gyfer cyflawni neu ddangosyddion y gellir mesur llwyddiant yn eu herbyn. Dyna pam rydym wedi gwneud argymhelliad 1. Byddwn yn ailedrych ar y Cynllun Cyflogadwyedd yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn.

**152.** Rydym yn croesawu'r newid i gymorth mwy pwrpasol yn seiliedig ar anghenion unigol. Credwn y bydd y dull gweithredu hwn yn helpu'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur i ddatblygu'r sgiliau a'r profiadau sydd eu hangen i gael cyflogaeth dda a chynaliadwy. Yn ystod ein gwaith ar Cymunedau yn Gyntaf, gwelsom hefyd bwysigrwydd cydleoli gwasanaethau, ac effaith darparu gwasanaethau a chymorth mewn adeiladau cymunedol. Felly rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu cydleoli gwasanaethau lleol er mwyn symleiddio mynediad i gymorth cyflogadwyedd.

**153.** Bydd olrhain a monitro effeithiolrwydd ymyriadau cymorth yn hanfodol. Credwn ei bod yn bwysig bod Cymru'n Gweithio yn casglu data am gyfnod hwy na chwe mis. Mae angen canolbwyntio ar sicrhau bod pobl yn cael gwaith cynaliadwy, y gallant symud ymlaen a datblygu ynddo. Hefyd, mae a wnelo â mwy na dim ond casglu'r data; mae a wnelo â chynnal dadansoddiad a defnyddio hyn i lunio a chyfeirio polisi i ddarparu cymorth effeithiol yn y ffordd orau.

> **Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cymru'n Gweithio yn parhau i gasglu data ar ganlyniadau a phrofiadau am o leiaf flwyddyn ar ôl i rywun lwyddo i gael gwaith.

**154.** Rydym yn nodi bod y Cynllun Cyflogadwyedd yn datgan y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach i nodi lle y gellir rhoi cymorth i fusnesau bach a microfusnesau. Rydym yn croesawu hyn, gan ein bod wedi clywed llawer o syniadau cadarnhaol gan y Ffederasiwn Busnesau Bach am sut y gellir cefnogi busnesau yn well, a'r rôl bwysig y maent yn ei chwarae wrth ddarparu swyddi da, yn aml mewn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig.

## Symud ymlaen yn y gwaith

**155.** Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a glywsom fod angen canolbwyntio o'r newydd ar lwybrau i symud ymlaen yn y gwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r

sectorau hynny lle mae swyddi ar lefel mynediad yn aml yn rhai â chyflogau isel, neu i bobl sy'n dymuno gweithio'n rhan-amser.

**156.** Rhan annatod o symud ymlaen yn y gwaith fydd cyngor gyrfaoedd effeithiol, pan fydd pobl yn penderfynu ar hyfforddiant neu swyddi/gyrfaoedd posibl a phan fyddant yn ystyried newid swydd neu yrfa. Nodwn fod Gyrfa Cymru wedi cael rôl ehangach i weithredu'r Porth Cyngor Cyflogaeth sydd wrthi'n cael ei sefydlu. Ni chawsom unrhyw dystiolaeth sylweddol ar effeithiolrwydd Gyrfa Cymru, fodd bynnag, gwyddom fod ei gyllid wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a bod hyn wedi cael effaith ar y gwasanaethau a ddarperir ganddo.[197] Mae cyngor gyrfaoedd effeithiol ac amserol yn hanfodol i gynorthwyo pobl i wneud dewisiadau ynghylch hyfforddiant a gyrfaoedd. Rhaid darparu'r cronfeydd angenrheidiol i dalu am unrhyw gynnydd yng nghyfrifoldebau Gyrfa Cymru er mwyn sicrhau y gall ddarparu'r gwasanaethau yn effeithiol.

**157.** Clywsom dystiolaeth gymhellol iawn ar effaith pecyn cymorth cydlynol i helpu cyflogwyr i ddatblygu llwybrau i symud ymlaen yn y gwaith, gan gefnogi gweithwyr hefyd i ddatblygu sgiliau, cynyddu oriau a llywio'r system fudd-daliadau sy'n aml yn ymdebygu i ddrysfa i sicrhau na chaiff cynnydd mewn oriau neu gyfrifoldeb effaith negyddol arnynt. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu'r dull hwn, gan ddysgu gwersi gan WAVE.

**158.** Credwn y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cymorth i symud ymlaen yn y gwaith gyda'r pedwar sector sylfaen y mae wedi dewis eu blaenoriaethu. Rydym hefyd yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth glir ar bwysigrwydd datblygu ysgolion swyddi clir yn y sectorau hyn, i helpu cyflogwyr a gweithwyr i ddeall sut y gallant ddatblygu eu sgiliau yn y ffordd orau.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru dreialu cymorth i symud ymlaen yn y gwaith ar gyfer y pedwar sector sylfaen y mae wedi dewis eu blaenoriaethu. Gallai hyn gynnwys meysydd fel cymorth gan gyngor sgiliau neu gyngor ar yrfaoedd; a chefnogaeth ar gyfer dealltwriaeth gynyddol o sgiliau trosglwyddadwy a "dysgu wrth weithio" i gynorthwyo pobl sy'n symud ymlaen yn y gwaith o fewn sefydliadau.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyflogwyr mewn sectorau sylfaen i dreialu "ysgolion gwaith" mewn cwmnïau i wella cyfleoedd i'r gweithlu symud ymlaen yn y gwaith.

---

[197] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, **Prentisiaethau yng Nghymru**, paragraffau 80-83, Chwefror 2018

# 4. Caffael

Caffael yw un o'r dulliau pwysicaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru er mwyn gwella cyfleoedd i'r rhai sydd ar incwm isel. Clywsom dystiolaeth sy'n awgrymu nad yw rhai o'r bwriadau da yn yr agenda caffael moesegol yn cael eu gweithredu'n llawn. Mae'n hanfodol ein bod yn cynyddu gwerth cymdeithasol gwariant cyhoeddus i'r eithaf.

**159.** Roedd pwysigrwydd caffael yn thema glir drwy gydol ein hymchwiliad.[198]

**160.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wrthym mai uchelgais Llywodraeth Cymru oedd sicrhau bod yr arian sylweddol a wariwyd gan sector cyhoeddus Cymru yn cael ei ddefnyddio i sicrhau'r effaith fwyaf posibl o ran creu swyddi, gweithgaredd economaidd ac yn y blaen.[199]

## 4. 1. Ansawdd caffael

**161.** Disgrifiodd yr Athro Karel Williams y broses gaffael fel sefyllfa lle mae cyrhaeddiad yn fwy na'r gafael.[200] Dadleuodd fod gormod o ffocws wedi bod ar leoliad cod post a'i bod yn bryd cymryd caffael o ddifrif.[201]

**162.** Dywedodd Unsain Cymru wrthym, yn y sector gofal cymdeithasol, fod contractau'n cael eu dyfarnu ar sail cost yn unig. Mae hyn yn effeithio ar dâl, telerau ac amodau gweithwyr.[202] Clywsom lawer o dystiolaeth am lefelau cyflog gwael ac ansawdd gwaith yn y sector gofal cymdeithasol.[203]

---

198 Ymhlith y tystion a bwysleisiodd hyn roedd Oxfam Cymru, Cyngor ar Bopeth, a Chwarae Teg.

199 Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [277]

200 Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [157]

201 Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [157]

202 Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [20]

203 **MEW09 Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru**, paragraffau 3.2-3.4

**163.** Dadleuodd TUC Cymru yn gryf dros lai o ddarnio yn y maes comisiynu ac i'r sector cyhoeddus ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol cyn belled â phosib. Dywedodd y byddai dull o'r fath yn arbed costau, oherwydd:

> "There is a cost-saving argument to say, in the long term, on the principle of invest to save, that if more of those workers were directly employed it makes more sense to invest in each of their career development plans, and it means that we have fewer people in in-work poverty..."[204]

**164.** Galwodd Unsain Cymru am newidiadau mewn deddfwriaeth gaffael:

> "...to ensure that if people are out of the house and available for work and responsible to their employer, then they should be paid, ideally, the living wage for every hour, but at least the legal wage, and it's unfortunate that employers just seek to try and sneak out of that by various means. I think that should be part of any domiciliary care procurement."[205]

**165.** Teimlai Unsain Cymru y gall y broses gaffael yn aml weithio yn erbyn y cwmnïau hynny a fyddai'n cynnig y pecynnau gofal gorau. Roeddent yn pryderu bod contractau yn gyfyngedig i amser ac yn canolbwyntio ar gost ac felly nad ydynt yn gwobrwyo'r rhai sy'n rhedeg contractau'n effeithiol ac sy'n darparu lefel dda o wasanaeth.[206]

**166.** Cododd Cynghrair Ffederasiwn Adeiladu Cymru (WCFA) bryderon tebyg yn y sector adeiladu a sut mae diffyg cymhelliad yn ystumio'r farchnad:

> "...if you have a contractor who really gets this and goes for it, they do price-they have to price-some kind of resource in there to do it, so there is a cost with it, but the benefits should outweigh the costs. You've then got somebody who maybe understands that that client isn't that bothered about this. 'We'll put the tender in. We won't price that in because we'll never be held to account for it'. You've got an imbalance

[204] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [108-109]

[205] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [112]

[206] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [45-46]

> then straight away in that tendering process, and the better contractors don't like that, because it's not fair."[207]

**167.** Pan godasom y pryderon a amlygwyd gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru ynghylch effaith tendro'n foesegol ar gostau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid:

> "We're interested in greatest value, not lowest cost."[208]

**168.** Nid oedd yn teimlo bod y contractio yng Nghymru yn seiliedig ar y gost isaf. Er ei fod yn cydnabod bod y gost yn ffactor, dywedodd mai un elfen yn yr hyn a fydd bob amser yn set o ffactorau mwy cymhleth yw hyn.[209]

**169.** Roedd WCFA yn glir:

> "…we're not going to get the benefits out to the people in Wales that we want without some robust changes to procurement and making sure that this is driven top-down."[210]

**170.** Clywsom nad cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yn unig yw sicrhau prosesau caffael effeithiol yn y sector cyhoeddus a bod gan bob sefydliad sector cyhoeddus ran i'w chwarae yn hyn o beth. Dywedodd yr Athro Karel Williams fod angen i'r sefydliadau cyfryngol megis ysbytai, prifysgolion ac awdurdodau lleol gael eu defnyddio i helpu i gyflawni'r agenda hon.[211] Galwodd Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil (CECA) ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy o waith plismona a gorfodi gyda sefydliadau contractio, gan nodi diffyg dilyniant a gorfodi.[212]

**171.** Pwysleisiodd nifer o dystion bwysigrwydd datblygu capasiti caffael er mwyn symud y ffocws o fodel costeffeithlon i un sy'n seiliedig ar ansawdd y ddarpariaeth

---

[207] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [229]

[208] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [367]

[209] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [366]

[210] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [235]

[211] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [166]

[212] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [178]

a gwella'r economi drwy gyflogau uwch fel y disgrifiwyd gan yr Athro Caroline Lloyd.[213]

**172.** Dywedodd yr Athro Karel Williams fod angen ymwymiad o ran adnoddau, gweithlu a difrifoldeb er mwyn i hyn ddigwydd.[214]

**173.** Dywedodd yr Athro Caroline Lloyd, gan mai caffael yw un o'r manteision polisi mwyaf sydd ar gael yng Nghymru, fod angen ei flaenoriaethu yn unol â hynny.[215] Dywedodd TUC Cymru:

> "...it's worth recognising that that's a long-term approach, and you need to invest in the people who are going to be bringing the public policy statement on procurement to life, really. The challenge to the public sector is to treat procurement as a strategic operation across the whole public sector."[216]

**174.** Disgrifiodd yr Athro Karel Williams sut y dywedodd Pennaeth Caffael yn y sector cyhoeddus wrtho mai'r her fwyaf oedd cael cefnogaeth uwch reolwyr ar gyfer prosesau caffael gan ganolbwyntio ar fudd cymunedol.[217] Dywedodd hefyd fod angen asesu gwerth y contractau y mae pob swyddog caffael yn gyfrifol amdanynt oherwydd os yw'n swm mawr ni ellir gwahaniaethu am resymau amlwg.[218] Dywedodd fod angen meddylfryd cwbl wahanol ar gyfer caffael, a oedd yn fwy rhagweithiol o ran nodi darpar gontractwyr.[219]

**175.** Amlygodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru bryderon hefyd am ddiffyg capasiti yn y sector cyhoeddus i osod contractau mewn rhai ffyrdd. Nododd fod anghysondeb ar draws y sector cyhoeddus, gan ddweud bod rhai awdurdodau

---

[213] **MEW13 Yr Athro Caroline Lloyd, Prifysgol Caerdydd**, paragraff 5.3

[214] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [161]

[215] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [163-165]

[216] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [51]

[217] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [167]

[218] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [175]

[219] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [175]

lleol yn wirioneddol dda o ran sicrhau manteision ehangach caffael, gan fod ganddynt y gallu i wneud hynny.[220]

**176.** Soniodd CECA hefyd am yr amrywiaeth o ran ansawdd caffael ledled Cymru. Roedd yn teimlo y gallai fod màs critigol, gyda rhai awdurdodau cyhoeddus yn rhy fach i ymgymryd â gwaith o'r fath. Roedd yn teimlo bod yr agenda rhanbartholi yn gyfle i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, roeddent am weld newid mwy sylfaenol o ran sut y mae caffael yn cael ei wneud gan symud o ddull trafodiadol i ddull cydweithredol.[221]

**177.** Galwodd CECA hefyd am fwy o gydgyfnerthu gwasanaethau caffael, oherwydd ceir dulliau gweithredu amrywiol ledled Cymru, sy'n ei gwneud yn anos i gadwyni cyflenwi gymryd rhan.[222] Ategodd WCFA hyn, gan ddweud y byddai'n ddefnyddiol cael nifer llai o bobl yn cynrychioli ystod ehangach o gleientiaid.[223]

**178.** Disgrifiodd CECA rai o'r newidiadau caffael yr hoffai eu gweld, a oedd yn cyd-fynd â'r dull a awgrymwyd gan yr Athro Karel Williams. Dywedodd CECA:

> "…the approach I am proposing here is that we link into the whole collaborative and regional agenda, which is developing, and we look at this as a client-led issue, with client organisations and collaboratively, local authorities et cetra coming together and putting the support structures in place for contractors to just effectively pick off that. So, if they win a particular project, there is a support structure there already….with a shared apprenticeship scheme, they go back into that and are fed through to another employer, another supplier, who gives them continuity of experience. You then start to build up that pool."[224]

**179.** Disgrifiodd CECA sut mae hyn yn gweithio yng Ngorllewin Cymru gyda chynllun Cyfle, sef cynllun prentisiaeth a rennir. Roedd yn gweld manteision y dull hwn:

---

[220] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [256]

[221] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [198]

[222] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [265]

[223] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [266]

[224] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [145]

> "If the client organisations-the local authorities, the local education authorities-are in charge of that process, you've got continuity; you've got resources that are consistently delivered by whichever contractor comes into this....it is about that shift from contractor to client led, and to a strategic view as opposed to individual transactional contracts."[225]

**180.** Roedd CECA yn credu bod angen llawer o adnoddau ar un ochr i'r berthynas gaffael, naill ai ar ochr y cleient neu ar ochr y contractwr, er mwyn ymgymryd â'r broses gaffael yn iawn. Cyfeiriwyd at Willmott Dixon fel enghraifft dda. Gan nad yw Busnesau Bach a Chanolig yn ddigon mawr i weithredu mewn modd tebyg, roedd angen dod â nifer o gontractwyr bach at ei gilydd i greu'r màs critigol. Gellir gweld manteision ymarferol y dull gweithredu hwn gyda'r prosiect Cyfle.[226]

**181.** Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, er y gall rhanbartholi gynyddu capasiti, a all arwain at broses gaffael well, gall hefyd arwain at gontractau mwy. Dywedodd fod y dystiolaeth yn dangos bod contractau mwy yn dueddol o eithrio'r cwmnïau llai. Er bod rhanbartholi yn gallu arwain at fanteision:

> "....we need to be laser focused on saying, 'Okay, but you still need to deliver this in a way that is ensuring that social value is captured."[227]

**182.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn cytuno â'r rhanddeiliaid ynglŷn â phwysigrwydd swyddogion caffael effeithiol, gan ddweud wrthym fod cyflawni budd cymunedol yn dibynnu ar allu a dyfalbarhad y cleient i sicrhau bod ysbryd yn ogystal â llythyren y Cod yn cael eu parchu.[228] Roedd yn derbyn bod gan Lywodraeth Cymru rôl i sicrhau bod trefniadau monitro effeithiol ar waith, a dywedodd fod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn fforwm pwysig i'r Llywodraeth ddeall yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.

**183.** Pan fynegwyd pryderon ynghylch y gostyngiad yn y staff caffael a'r capasiti caffael, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y pryderon hyn yn ddilys. Roedd yn cydnabod bod hwn yn faes lle roedd angen gwelliannau, ac na ddylai cyrff

---

[225] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [146]

[226] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [159]

[227] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [258]

[228] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [315]

cyhoeddus ystyried caffael fel dim ond swyddogaethau swyddfa gefn, mecanyddol.[229]

**184.** Amlinellodd y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn:

- datblygu rhaglen gaffael newydd;
- datblygu cynllun prentisiaeth ar gaffael;
- Gwiriadau Ffitrwydd i Gaffael;[230]
- pwyslais newydd ar ddatblygiad proffesiynol o fewn y maes caffael;
- sicrhau bod uwch staff caffael yn rhan o rwydweithiau caffael ledled y DU.

**185.** Dywedodd y byddai'r camau hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl wedi'u paratoi'n gywir, eu hyfforddi'n gywir ac yn cael eu gwerthfawrogi'n briodol i wneud y swyddi pwysig iawn hyn.[231]

## 4. 2. Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn cadwyni cyflenwi

**186.** Dywedodd Cyngor ar Bopeth y dylai Llywodraeth Cymru annog busnesau a sefydliadau yng Nghymru i ymrwymo i'r Cod Ymarfer ar gyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi (y Cod), a bod angen sicrhau bod cadw at y Cod yn cael ei fonitro'n rheolaidd ar ôl iddo gael ei sefydlu.[232]

**187.** Galwodd Sefydliad Bevan am orfodi a chymorth trylwyr i gyflogwyr er mwyn gwneud y mwyaf o effaith y Cod.[233] Roedd yn teimlo bod y fframwaith yn ardderchog a bod y Cod yn wych ond:

> "….if you go to the front line…..they'll tell you a different story, and they will tell you about real difficulties that they have in getting the

---

[229] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [338]

[230] Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet y gwiriadau hyn wrth fesur bron pob agwedd ar gaffael, gan gynnwys a oes modd ymgymryd â thendro electronig, sut maent yn hyfforddi a datblygu staff a pholisïau a phrosesau mewnol sefydliad.

[231] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [339]

[232] **MEWN04 Cyngor ar Bopeth**, paragraff 3.8

[233] **MEW11 Sefydliad Bevan**, paragraff 15

> recognition for the social-value element in contracts. We came across people who were talking recently about social care being procured like wheelie bins. There seems to be a gap in the translation. I think the way that you get the good intent in the procurement policies actually down to the contracting process is through the policies having teeth. So, unless it's monitored and enforced, and there are consequences for non-compliance, it ain't going to happen."[234]

**188.** Dywedodd USDAW wrthym ei fod yn pwyso ar y Bwrdd Gwaith Teg i'w gwneud yn glir bod unrhyw gontractwr sydd am gael gwaith gan y sector cyhoeddus yn deall bod arferion cyflogaeth moesegol yn absoliwt.[235]

**189.** Dywedodd TUC Cymru er bod y Cod yn gam cadarnhaol ymlaen, roedd am weld gwaith paratoadol yn cael ei wneud ar y posibilrwydd o roi'r Cod ar sylfaen statudol.[236]

> "It is a collective position, in that we would want to see legislation. Ideally, that is how you shift things; that's how you switch a dial. So, there's no excuse to wait. The code of practice is there and agreed. But, on legislation for procurement, we think the work that needs to be done now is exploring what the options are going to be with the EU exit in mind as well. Could we be more radical? We've said that that could be a silver lining in the dark clouds of Brexit—that there could be more flexibilities within what we can achieve on procurement, if the Ministers are able to exercise their competence."[237]

**190.** Codasom bryderon y rhanddeiliaid ynghylch gweithredu'r Cod gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Dywedodd fod y Cod ar gam gweithredu cynnar:

> "Signing up to the code is a commitment to take action, rather than an indication that everything is already in place, and therefore we are bound to think of a 12 to 18-month horizon in which the impact of a code on the ground can be traced and the extent to which is

[234] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [27]

[235] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [27]

[236] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [31]

[237] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [33]

> successfully making a difference can be properly evaluated……I feel very positive about the code because it has had such a strong endorsement from the organisations that we will rely on to deliver it."[238]

**191.** Amlinellodd y sefydliadau a oedd wedi ymrwymo i'r Cod a oedd (adeg tystiolaeth lafar) yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru
- y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol;
- Cyngor Caerdydd;
- Cartrefi Cymunedol; a
- thros 20 o sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector.[239]

**192.** Dywedodd fod CLlLC yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod pob un o'r 22 awdurdod wedi ymrwymo i'r Cod, bod pob heddlu wedi nodi y byddai'n ymrwymo iddo, a bod y gwaith hwnnw'n parhau o fewn y GIG.[240]

**193.** Nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet yn argyhoeddedig bod angen i'r Cod gael ei gynnwys mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd, a chredai ei bod yn bwysig manteisio ar ewyllys da i wneud iddo weithio. Fodd bynnag, dywedodd na fyddai'n anwybyddu'r ddeddfwriaeth fel copi wrth gefn pe na bai'r brwdfrydedd a'r ymrwymiad a oedd yn cael ei ddangos ar hyn o bryd yn trosi i weithredu'r Cod yn effeithiol.[241]

**194.** Dywedodd hefyd fod risg y byddai deddfwriaeth o'r fath yn arwain at:

> "…a tick-box response, because now you're not relying on people's commitment to things, their wish to do things in the way that we've agreed. All they will do is look to see what the minimum requirements

[238] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [282]
[239] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [284]
[240] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [285]
[241] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [295]

> they have to meet in the law are, and so long as they can tick the box to tell you they've done it, that's as far as it will go."[242]

**195.** Disgrifiodd Helen Walbey fanteision ac anfanteision y Cod i fusnesau bach. Fel busnes bach, moesegol, dywedodd fod ymrwymo i'r Cod yn ei galluogi i hyrwyddo hyn. Ar ochr arall y geiniog, mae'r baich biwrocratiaeth yn fawr oherwydd mae'n rhaid iddi ddangos tystiolaeth o bopeth mae hi eisoes yn ei wneud. Roedd yn teimlo bod gan y Llywodraeth rôl o ran ymdrin â hyn, yn enwedig pan nad yw sefydliadau mwy yn cydymffurfio â'r Cod yn y ffordd y dylent fod yn ei wneud.[243] Dywedodd wrthym fod ymwybyddiaeth o'r Cod ymhlith y sector Busnesau Bach a Chanolig yn fach iawn, iawn.[244]

## 4. 3. Monitro a gorfodi

**196.** Cododd CECA a WCFA bryderon ynghylch lefelau trylwyredd a gorfodaeth o fewn y prosesau caffael presennol. Yn benodol, roeddent yn pryderu ynghylch sut mae budd cymunedol yn cael ei gynnal wrth isgontractio. Dywedodd WCFA:

> "There must be evidence proving that what is in the contract is being delivered by whom it is supposed to be delivered, not abrogated to someone else."[245]

**197.** Tynnodd CECA sylw at y ffaith bod gan gwmnïau mwy fantais yn aml gan eu bod yn gallu rhoi ymatebion cadarn i ba bynnag brosesau caffael sydd ar gael. Roedd am i fwy o gymorth gael ei roi i gontractwyr llai i gyflawni'r un lefel o soffistigeiddrwydd. Roedd am i strwythurau cymorth gael eu rhoi ar waith gan gleientiaid i helpu i ddatblygu cwmnïau llai, gan dynnu sylw at y ffaith mai hwy yw'r rhai sy'n cyflogi'r bobl ifanc hyn.[246]

---

[242] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [313]

[243] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [244]

[244] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [272]

[245] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [166]

[246] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [167, 170]

**198.** Disgrifiodd CECA lawer o gwmnïau adeiladu sy'n Fusnesau Bach a Chanolig fel rhai sydd wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau.[247]

**199.** Dywedodd Helen Walbey wrthym am fanteision cynnwys busnesau bach a chanolig yn y broses gaffael:

> "I think there's an opportunity within that, not just to look at the high-level compliance, but actually to look at whether we're doing business ethically, and I think there's an opportunity then, with small businesses, because a lot of small businesses may not have the necessary written policies, processes and procedures, but, actually, they can be infinitely better at complying with the spirit of the law. They're much more embedded in their communities, they have much more understanding of the impact that their jobs create, and also they tend to spend their profits within their communities, rather than it being dispersed."[248]

**200.** Dywedodd Helen Walbey fod llawer o fusnesau bach yn amharod i ymwneud â phrosesau caffael cyhoeddus, oherwydd bod y broses yn cael ei hystyried yn feichus iawn. Teimlai y gellid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth, ac ymgysylltu â'r sector hwn, i'w helpu i gymryd rhan mewn prosesau caffael cyhoeddus. Yn benodol, symleiddio'r broses ar gyfer y contractau gwerth is. Dywedodd wrthym fod busnesau bach a chanolig mewn gwirionedd yn ychwanegu mwy o werth at gontract na busnesau mwy o faint.[249]

**201.** Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, er mwyn symud budd cymunedol y tu hwnt i fod yn ymarfer ticio bocs, bod angen gwneud mwy o waith archwilio a monitro ar y cymalau hyn. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i ymgymryd â hyn.[250] Roedd yn derbyn y byddai hyn yn ddrud, ond ychwanegodd:

> "It just brings us into a territory of how we absorb that cost and whether we see the value of that procurement as being something, perhaps,

[247] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [148]

[248] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [241]

[249] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [274]

[250] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [245]

> wider than just ensuring that it's the lowest cost possible. I don't have a direct answer, … but we need to look at how it's done."[251]

**202.** Cododd WCFA hefyd y mater yn ymwneud â chost sicrhau model caffael cadarn sy'n creu budd cymdeithasol ehangach. Gofynnodd sut mae gwneud hynny os nad yw'r gadwyn gyflenwi yn gwneud unrhyw arian.[252] Teimlai WCFA y byddai angen cefnogi'r gwaith o ddatblygu model caffael cadarn drwy sefydlu Ombwdsmon a allai dynnu sylw at arferion gorau a mynd i'r afael â chamymddygiad.[253]

**203.** Pan ofynasom i WCFA a CECA sut mae'r rhaglen budd cymunedol yn gweithio, dywedodd WCFA nad yw'n gweithio mewn gwirionedd.[254] Disgrifiodd CECA y rhaglen budd cymunedol fel un a chanddi fwriadau da, ond:

> "…it's plateaued for quite some time. I think it's in danger of getting into a little bit of disrepute now because I think that many people on different sides of the, if you like, client-supplier relationship are almost playing a game now."[255]

**204.** Dywedodd fod y ffordd y gweithredir polisïau yn eithaf trafodiadol.[256]

**205.** Pan godwyd pryderon ynghylch sut y gellir sicrhau budd cymunedol wrth isgontractio, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fod hyn yn dibynnu ar reoli contractau a rheoli rhaglenni'n effeithiol, gydag atebolrwydd clir ar ochr y cleient a'r contractwr. Amlygodd hefyd yr angen am sancsiynau cymesur am beidio â chyflawni. Dywedodd fod gwaith ar y gweill ar hyn o bryd yn Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r polisi budd cymunedol, a fyddai'n gwneud y broses adrodd yn haws ac yn fwy hygyrch. [257]

---

[251] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [247]

[252] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [153]

[253] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [153]

[254] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [139]

[255] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [142]

[256] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [144]

[257] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [306, 308]

**206.** Cododd WCFA bryderon am y nifer fawr o gyrff cyn-gymhwyso, gan gyfeirio at adroddiad gan Gwerth Cymru a awgrymodd fod £20 miliwn y flwyddyn yn cael ei wastraffu ar gyn-gymhwyso. Dywedodd fod tuag 20 o gyrff cyn-gymhwyso yn bodoli, ond bod cronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr (SQuID) yn gwneud pob un o'r pethau hyn. Fodd bynnag, nid yw contractwyr haen 1 yn mynnu defnyddio SQuID; byddant yn gofyn am achrediad arall.[258]

## 4. 4. Cydraddoldeb a chaffael

**207.** Dadleuodd Dr Alison Parken y gellir gwneud mwy drwy drefniadau caffael effeithiol i wella cydraddoldeb rhywiol, gan gynnwys rhoi pwys ar ganlyniadau'n ymwneud â chydraddoldeb, cyflog a symud ymlaen yn y gwaith. Cyfeiriodd at enghreifftiau da megis y prosiectau High-Speed 2 a Tideway:

> "….if they're properly weighted and we give them their due influence, then I think we can influence the way that tenders are given."[259]

**208.** Dywedodd Helen Walbey wrthym fod deddfwriaeth ar waith yn America sydd wedi gosod amrywiaeth o ofynion ar y broses gaffael, er mwyn sicrhau bod canran benodol o gontractau'n cael eu rhoi i fwyafrif o fusnesau sy'n eiddo i fenywod, busnesau sydd dan anfantais economaidd, busnesau a arweinir gan gyn-filwyr a busnesau sydd wedi'u lleoli mewn canolfannau menter. Mae hyn wedi arwain at gontractau gwerth £400 biliwn i fusnesau o'r fath. Dywedodd fod cyfle i:

> "…ensure that we build that diversity within our supply chain process and I think, then, it's also about looking at how we reinforce the legislation that is already there to ensure that those largest businesses within the supply chain are actually complying with current legislation, not just to the letter of the law but to the spirit of the law as well."[260]

**209.** Dadleuodd Chwarae Teg fod ystod o ymddygiadau ysgogol cadarnhaol y gallai Llywodraeth Cymru eu defnyddio i sicrhau bod mwy yn dilyn y Cod.[261] Cyfeiriodd at yr arferion da yn Berlin, lle mae'n rhaid i gontractwyr gyflwyno datganiad neu gynllun gweithredu ynghylch sut y byddant yn helpu i ddyrchafu

---

[258] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [195]

[259] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [162-163]

[260] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [239]

[261] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [159]

menywod o fewn y swydd honno, neu'r contract, sector neu'r diwydiant hwnnw. Awgrymodd y dylid cyflwyno cymal budd cydraddoldeb yn debyg i'r cymalau budd cymunedol.[262]

**210.** Gofynasom i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid beth yr oedd y Llywodraeth yn ei wneud i ddefnyddio caffael i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Dywedodd wrthym, fel enghraifft, fod y Llywodraeth yn awyddus i gymryd camau i ddefnyddio caffael er mwyn cynyddu nifer y menywod yn y diwydiant adeiladu. Disgrifiodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol sut mae polisïau sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb wedi'u hymgorffori yn yr asesiad risg strategol o'r holl drefniadau caffael uwchlaw £25,000. Clywsom fod canllawiau wedi'u llunio gan Lywodraeth Cymru, a bod cymalau budd cymunedol wedi eu hanelu at gynyddu nifer y menywod yn y maes adeiladu. Ond mae'n cyfaddef:

> "…it's very difficult to mandate because, once you get into the regime of mandation, there's actually evidence that it can actually distort the outcomes and have a negative effect rather than a positive effect."[263]

**211.** Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet ymrwymiad y bydd ei swyddogion yn ymchwilio ymhellach i rai o'r syniadau a gynigiwyd gan dystion i'r ymchwiliad hwn, gan gynnwys awgrymiadau Chwarae Teg ynglŷn â'r dull a fabwysiadwyd yn Berlin.[264]

**212.** Tynnodd nifer o dystion, gan gynnwys TUC Cymru[265] a Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru,[266] sylw at y cyfleoedd y gall Brexit eu cyflwyno i fod yn fwy radical mewn perthynas â chaffael.

**213.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y gallai ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd roi hyblygrwydd newydd yn y maes caffael a chyfle i bwyso a mesur y gallu i ddysgu pethau o leoedd eraill – rhywbeth na chaniateir ei wneud

[262] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [165]

[263] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [356]

[264] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [358]

[265] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [33]

[266] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [252]

ar hyn o bryd oherwydd y ffordd y mae'r llyfr rheolau y mae Llywodraeth Cymru ynghlwm wrtho wedi'i ysgrifennu.[267]

## 4. 5. Ein barn ni

**214.** Yn ddiweddar, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ddau adroddiad ar gaffael yng Nghymru.[268] Mae'n siomedig bod y rhain yn cadarnhau nad yw Cymru yn sicrhau'r gwerth gorau am bob punt sy'n cael ei gwario yn y sector cyhoeddus. Yn dilyn yr adroddiadau hyn, cymerodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus dystiolaeth lafar. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o gaffael nawr a disgwylir iddi gyhoeddi adroddiad ar hynny ym mis Medi 2018.

**215.** Mae caffael yn offeryn hanfodol i helpu i ysgogi twf cynhwysol. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cymryd camau pwysig i geisio manteisio i'r eithaf ar fudd i gymdeithas yn sgil buddsoddiad cyhoeddus wrth gyflwyno'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn cadwyni cyflenwi. Clywsom dystiolaeth gref gan lawer o randdeiliaid ynghylch diffyg monitro cydymffurfiaeth yn effeithiol yn erbyn canllawiau ar arferion cyflogaeth moesegol a budd cymunedol. Pan fydd sefydliadau adeiladu a sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau bach yn mynegi cryn bryder ynghylch diffyg cydymffurfiaeth a diwylliant "ticio-blychau", mae'n amlwg bod problem.

**216.** Credwn ei bod yn rhy gynnar i benderfynu a oes angen rhoi'r Cod ar sylfaen statudol. Rydym yn cefnogi barn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid bod cyfranogiad gwirfoddol yn fwy tebygol o ysgogi'r newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol sydd eu hangen. Ond ni ddylem ddiystyrru'r posibilrwydd o gael deddfwriaeth. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru roi amserlen glir ar gyfer cynnal gwerthusiad eang o'r nifer sy'n defnyddio'r Cod a'i weithrediad, gyda'r nod o ddeddfu os na fydd yn cael yr effaith a ddymunir o hyd. Yn amlwg, bydd angen i unrhyw adolygiad ystyried unrhyw wahaniaethau yn y rheoliadau caffael ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys awydd Llywodraeth y DU i ddatblygu fframwaith caffael cyffredin ar lefel y DU.[269]

**217.** Clywsom y gellid colli budd cymdeithasol ac elfennau moesegol contract yn ystod y broses isgontractio. Gan fod isgontractio yn rhan fawr o'r broses gaffael, gallai hyn effeithio ar gynyddu'r gwerth cymdeithasol i'r eithaf. Mae hwn yn fater

[267] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [362]

[268] **Archwilydd Cyffredinol Cymru, Caffael Cyhoeddus yng Nghymru, Hydref 2017** a **Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Tachwedd 2017**

[269] Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU, **Frameworks Analysis**

cymhleth lle ceir ystod o ffactorau, ond un o'r rhai allweddol yw gallu'r cleient i adolygu a monitro'r broses o gyflawni'r contract.

**218.** Clywsom gan y sector busnesau bach fod ymwybyddiaeth o'r Cod yn isel. Yn ogystal, gallai busnesau bach sydd naill ai'n fusnesau moesegol neu'n anelu at fod yn fwy moesegol gael eu dileu rhag ymgysylltu â phrosesau caffael. Gall costau ychwanegol godi o arferion busnes moesegol. Credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion hyn, a dylai Llywodraeth Cymru a chyrff y sector cyhoeddus sy'n ymgymryd â phrosesau caffael wneud mwy o waith i ymgysylltu â busnesau bach.

**219.** Roedd yn amlwg i ni, o'r dystiolaeth a gafwyd, bod capasiti a gallu staff caffael yn y sector cyhoeddus yn allweddol i gyflawni'r agenda hon. Clywsom ei fod yn amrywiol ledled Cymru. Rydym yn ymwybodol bod trafodaeth ehangach ar y gweill ynghylch yr agenda ranbartholi a chydweithredu mewn llywodraeth leol a allai fynd i'r afael â'r materion capasiti hyn.

**220.** Rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio caffael fel ysgogydd i leihau anghydraddoldebau yn y gweithle. Rydym yn gobeithio y bydd yn ystyried o ddifrif sut y gellid defnyddio cymalau "budd cydraddoldeb" i gyflawni hyn, yn ogystal ag ymchwilio'n llawn i'r gwaith a wnaed yn Berlin i sicrhau bod contractwyr yn cyflwyno cynlluniau gweithredu i hyrwyddo sefyllfa menywod.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gynnal adolygiad llawn o'r Cod Ymarfer ar Gaffael Moesegol mewn Cadwyni Cyflenwi erbyn 2020 ac yn cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodir. Dylai'r adolygiad ystyried a ddylid rhoi'r Cod ar sylfaen statudol.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r gwiriadau ffitrwydd i gaffael arfaethedig i asesu i ba raddau y mae cyrff y sector cyhoeddus yn sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio â mentrau cyflogaeth moesegol a budd i'r gymuned.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r gwiriadau ffitrwydd i gaffael i adolygu'r dull o fonitro arferion cyflogaeth moesegol a pholisïau budd cymunedol. Dylai canfyddiadau adolygiad o'r fath lywio'r gwaith o ddatblygu canllawiau i'r sector cyhoeddus ar fonitro ac adolygu cydymffurfiaeth.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i gwaith i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio cymalau "budd cydraddoldeb" mewn prosesau caffael, a'r posibilrwydd i ofyn i gontractwyr ddatblygu cynlluniau gweithredu i ddyrchafu menywod yn eu cwmni a'u diwydiant.

# 5. Ansawdd gwaith

Mae ansawdd gwaith, ac yn arbennig nifer yr oriau a'r rhybudd a roddir o oriau gwaith, yr un mor bwysig â lefelau cyflog. Gwelwyd newid mewn achosion dros y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi cael effaith sylweddol ar bobl sydd ag incwm isel. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu pwysigrwydd cyflogaeth foesegol wrth wneud penderfyniadau ynghylch darparu cymorth i fusnesau.

**221.** Pwysleisiodd y rhanddeiliaid bwysigrwydd gwella ansawdd gwaith.[270] Galwodd Oxfam Cymru ar Lywodraeth Cymru i edrych y tu hwnt i greu swyddi, ac i ganolbwyntio ar ansawdd. Amlygwyd yr effaith y gall gwaith ei chael ar iechyd meddwl a bywyd teuluol pobl.[271] Dywedodd Cyngor ar Bopeth fod arolwg diweddar yn dangos bod sicrwydd incwm yr un mor bwysig â lefel incwm.[272]

**222.** Clywsom gan nifer o dystion fod hyblygrwydd y farchnad lafur yn y DU wedi cael effaith nodedig ar ansawdd y gwaith sydd ar gael. Yn ôl yr Athro Caroline Lloyd:

> "In France, there's almost 100 per cent collective bargaining coverage, and they have a high minimum wage. There is a lot of regulation of the labour market in terms of things like employment contracts. …. Our sector is almost completely—. There are no unions; there is no collective bargaining coverage; the minimum wage is very low; regulations are very weak. We have—as we know—the most flexible labour market in Europe."[273]

**223.** Dywedodd mai diffyg rheoleiddio yn hytrach na methiant i reoleiddio sydd i'w gyfrif am hyn.[274]

---

[270] **MEW12 Yr Athro Anne Green, Dr Paul Sissons a Dr Neil Lee**, paragraff 17

[271] **MEW03 Oxfam Cymru**, adran 2

[272] **MEWN04 Cyngor ar Bopeth**, paragraff 3.2

[273] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [211]

[274] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [217]

**224.** Dywedodd Sefydliad Bevan wrthym:

> "Looking at job quality is actually a very new policy area….The downside of that is that there aren't many pointers as to what could be done, and the upside is the scope for innovation…..I think the scope for Welsh Government is around working very closely with employers to support them in shifting from business models based on low pay and poor conditions towards business models that are based on investment in the workforce and progression…..There's not a clear route-map there, but we do know that looking at pay, looking at hours and looking at the skills package that is needed can work."[275]

**225.** Tynnodd sylw at yr effaith y gall ansawdd swyddi ei chael ar lesiant pobl.[276] Rhoddodd Helen Walbey enghraifft drawiadol inni o effaith cyflogaeth, ar y gweithiwr, ei deulu a'r gymuned ehangach.

**226.** Dywedodd Chwarae Teg:

> "The gig economy is not really anything new. It's just that the industries that we're talking about as characterised by the gig economy now are the ones that men are working in. Women have been experiencing a lot of the things that workers in the gig economy experience for decades and decades, and it's interesting that it's now become a fascination of policy makers, when, actually, these are things we could have addressed generations ago."[277]

**227.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth bwysigrwydd ansawdd swyddi i lesiant pobl:

> "…it's absolutely vital that people, during their working age, have a sense of control over their working life, and that means control over the amount of time that they spend in the workplace, that they have the

---

[275] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [12]

[276] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [85]

[277] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [192]

> security of knowing that they have the skills to remain in work, and that they have a job that is going to be secure as well…"[278]

## 5. 1. Y Bwrdd Gwaith Teg

**228.** Dywedodd yr Athro Caroline Lloyd fod gan y Bwrdd Gwaith Teg botensial mawr a dywedodd fod mynd i'r afael â nifer o fylchau yn y Cynllun Gweithredu Economaidd yn dibynnu ar waith y Bwrdd. Fodd bynnag:

> "…there appears to be no details on the Welsh government website (or elsewhere) as to its composition or terms of reference. Why is there not more transparency in relation to this body?"[279]

**229.** Dywedodd Chwarae Teg, a gynrychiolir ar y Bwrdd, wrthym:

> "The first thing that we're looking at is what do we mean by fair work, what do we mean by decent work, and how can we measure that and how will we know if we've succeeded if we make changes. I have to say that we've only met once, so it's early days."[280]

**230.** Galwodd Sefydliad Bevan ar y Bwrdd i nodi'r ysgogiadau y gellid eu defnyddio yng Nghymru pan fo'r rhan fwyaf o delerau ac amodau cyflogaeth wedi'u datganoli, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer yr ysgogiadau hynny.[281]

**231.** Galwodd Oxfam Cymru ar y Bwrdd i wrando ar bobl, y rhai sy'n gweithio yn y trydydd sector a'r rhai sy'n byw mewn tlodi. Dywedodd fod y grwpiau hyn yn gwybod beth yw'r problemau a sut i'w datrys, ond nid oeddent yn glir (ac nid oedd Sefydliad Bevan yn glir ychwaith[282]) a fyddai'r math hwn o ymgysylltiad yn digwydd.[283]

---

[278] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [9]

[279] **MEW13a Yr Athro Caroline Lloyd**, paragraff 4

[280] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [199]

[281] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [76]

[282] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [76]

[283] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [78]

**232.** Dywedodd TUC Cymru wrthym ei fod am weld Cenedl Gwaith Teg; byddai hynny'n golygu:

> "...a principle that all Welsh Government and devolved public sector activity should be organised around the idea of promoting and maximising fair work outcomes across our public services and economy."[284]

**233.** Galwodd TUC Cymru ar y Bwrdd i fynd i eithafion y setliad datganoli.[285] Dylai:

> "...go as far as what we can do on regulation all the way along to what the soft influencing power is and the power to direct of the Welsh Government as a major organisation in the Welsh economy."[286]

**234.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn bwysig bod y Bwrdd yn teimlo'n gyfforddus yn herio'r Llywodraeth ac yn gweithio fel partner gyda'r Llywodraeth.[287]

**235.** Gan gysylltu â'r Contract Economaidd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y byddai'n rhaid i unrhyw gwmni a oedd am sicrhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru gydymffurfio â'r amodau a'r meini prawf a bennwyd gan y Bwrdd Gwaith Teg.[288]

**236.** Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd gwaith teg o ran lleihau'r bwlch cynhyrchiant rhwng y DU ac economïau eraill y gorllewin.[289]

**237.** Ers inni gwblhau'r broses o gymryd tystiolaeth lafar, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'n sefydlu'r Comisiwn Gwaith Teg, a fydd yn cael ei arwain gan Gadeirydd annibynnol, gydag aelodaeth gytbwys o ran y rhywiau a bydd yn cyflwyno adroddiad erbyn mis Mawrth 2019.

---

[284] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [9]

[285] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [91]

[286] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [91]

[287] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [27]

[288] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion, [38]

[289] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [115]

## 5. 2. Contractau dim oriau

**238.** Tynnodd yr Athro Caroline Lloyd sylw at y ffaith bod contractau oriau amrywiol yn brin mewn gwledydd eraill, gan gyfeirio at reoliadau mewn gwledydd megis Ffrainc a Norwy sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontractau adlewyrchu oriau gwaith, lle ceir cyfnodau rhybudd ar gyfer newid sifftiau.[290]

**239.** Galwodd Dr Rod Hick am sgwrs genedlaethol ar gontractau dim oriau. Gan ategu'r Athro Caroline Lloyd, dywedodd fod contractau o'r fath naill ai'n annilys neu'n anghyfreithlon mewn llawer o wledydd Ewropeaidd, a lle y cânt eu caniatáu, maent yn cael eu rheoleiddio'n drwm. Dywedodd hefyd fod diffyg data ar gontractau dim oriau, sy'n ei gwneud yn anodd dadansoddi a deall eu heffaith.[291] Roedd yn ystyried bod ymdrin â chontractau dim oriau yn ffordd bwysig ymlaen a chyfeiriodd at y camau yn Iwerddon i gael gwared ar gontractau dim oriau.[292] Roedd Unsain Cymru[293] a TUC Cymru[294] yn cefnogi galwadau i wahardd contractau dim oriau.

**240.** Dywedodd USDAW fod contractau oriau hyblyg yn her benodol yn y sector manwerthu:

> "All the employers have introduced flexible contracts, where it's a flexible contract for the employer, not the employee. So, typically, you can be on a contract of seven and a half hours a week, but that can flex up to 36 hours."[295]

**241.** Dywedodd Chwarae Teg wrthym fod 55% o'r rhai sydd â chontractau dim oriau yn fenywod.[296]

---

[290] **MEW13 Yr Athro Caroline Lloyd, Prifysgol Caerdydd**, paragraff 3.2

[291] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [241]

[292] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [290]

[293] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [97]

[294] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [101-102]

[295] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [87]

[296] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [159]

**242.** Gwnaeth un o'r cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws y sylw a ganlyn ar gontractau dim oriau:

> "They need to be stopped. Awful things – cause people stress and anxiety."[297]

**243.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei fod yn barod i:

> "...undertake whatever research is required to understand the consequences of zero-hours contracts, the gig economy and so forth, and to make informed decisions on how we can ensure that there is sustainable growth, that there is inclusive growth, but that people are able to retain a sense of control over their lives."[298]

## 5. 3. Ein barn ni

**244.** Mae ansawdd y gwaith yr un mor bwysig â'r gallu i sicrhau swydd yn y lle cyntaf. Mae'n bwysig bod cyflogaeth yn darparu digon o oriau a thâl i alluogi pobl i gynnal eu hunain a'u teuluoedd. Ategwyd effaith ehangach gwaith, ar yr unigolyn, ei deulu a'r gymuned ehangach, gan y dystiolaeth bwerus gan Helen Walbey. Dylai'r gwaith dalu ac mae'r lefelau presennol o dlodi mewn gwaith yn rhy uchel.

**245.** Rydym yn cydnabod bod rhai o'r ysgogiadau sy'n gallu helpu i droi'r llanw y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddi feddwl yn greadigol ac arloesol ynghylch defnyddio'r adnoddau sydd ganddi i wella ansawdd swyddi.

### Y Bwrdd Gwaith Teg

**246.** Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi "gwaith teg" wrth wraidd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Rydym yn cefnogi hyn yn gryf. Fodd bynnag, mae'n siomedig mai ychydig iawn o wybodaeth gyhoeddus sydd ar gael, os o gwbl, am y Bwrdd Gwaith Teg. Gan fod Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais ar waith y Bwrdd hwn, credwn y dylid darparu mwy o wybodaeth gyhoeddus am ei waith, ei aelodaeth, ei amcanion, y terfynau amser a'i hallbynnau.

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfansoddiad, cylch gorchwyl a manylion cyfarfodydd y Bwrdd Gwaith Teg ar wefan Llywodraeth Cymru ar unwaith. O ran y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru

[297] **Nodiadau o gyfarfodydd y Grŵp Ffocws**

[298] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [11]

ymrwymo i gyhoeddi canfyddiadau unrhyw waith a wneir gan y Bwrdd, ynghyd â'i ymatebion i argymhellion y Bwrdd.

## Contractau Dim oriau

**247.** Nid ydym yn cefnogi'r defnydd cyffredinol o gontractau dim oriau. Dangosodd y dystiolaeth a glywsom eu bod, pan gânt eu cyfuno â chyflogau isel, wedi cynyddu tlodi mewn gwaith. Rydym am eu gweld yn cael eu defnyddio dim ond pan fydd achos eithriadol o gryf dros ddadlau bod angen lefel o hyblygrwydd ar y gweithiwr. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i geisio lleihau'r defnydd o gontractau dim oriau yn y sector gofal cymdeithasol a'i hymrwymiad i ddefnyddio ei grym ariannol i ddatblygu'r newid diwylliannol a fydd yn arwain at leihau eu defnydd.


**248.** Rydym am weld Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Contract Economaidd mewn modd sy'n golygu y bydd cwmni ond yn cael cefnogaeth Llywodraeth Cymru os bydd yn cymryd camau i leihau'r defnydd o gontractau o'r fath yn briodol. Yn benodol, rydym am weld staff yn cael contractau mwy diogel ar ôl tri mis. Nid ydym yn credu y dylid defnyddio arian cyhoeddus i gefnogi cwmnïau sy'n defnyddio contractau dim oriau fel arfer cyflogaeth safonol. Ond, rydym yn cydnabod y gall cwmnïau wynebu anawsterau wrth drosglwyddo i gontractau diogel ac y gall hynny gymryd cryn amser, a dylai Llywodraeth Cymru roi cymorth i helpu cwmnïau i wneud y newid.

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gosod gofynion ar unrhyw gwmni sy'n cael cymorth gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid o dan y Contract Economaidd neu ddull arall i leihau'r defnydd o gontractau dim oriau. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo sefydliadau i oresgyn unrhyw rwystrau posibl rhag cynnig contractau diogel. Fel isafswm, dylai fod yn rhaid i gwmnïau gynnig opsiwn i weithwyr symud i gontractau diogel ar ôl cyfnod penodol o gyflogaeth, ac awgrymwn y dylai hynny fod yn 3 mis.

# 6. Cyflogau

## Rydym yn pryderu ynghylch lefelau'r cyflogau isel, a lefelau cynyddol o dlodi yn y gwaith. Credwn y dylai'r Cyflog Byw Gwirfoddol gael ei dalu ledled Cymru. Mae cyfle nawr i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach i annog talu'r Cyflog Byw Gwirfoddol ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat.

**249.** Mae'r map isod yn dangos % y swyddi lle y telir llai na'r Cyflog Byw Gwirfoddol yng Nghymru.



**250.** Adroddodd Ymddiriedolaeth Trussell fod gan dros draean o'r bobl sy'n manteisio ar fanciau bwyd oherwydd incwm isel rhyw fath o gyflogaeth. Dywedodd un banc bwyd fod gan tua hanner y bobl sy'n defnyddio ei wasanaethau gymysgedd o incwm o waith cyflogedig a budd-daliadau.[299]

**251.** Amlygodd Cyngor Sir y Fflint fentrau a allai gynyddu incwm aelwydydd, drwy leihau costau byw a chynyddu budd-daliadau nad yw'n gyflog ar gyfer y rhai ar gyflogau isel.[300] Roedd yr ystod o wahanol gamau yr oedd yn teimlo y dylid eu cymryd yn cynnwys:

- thai fforddiadwy;
- gwell mynediad i gynilion a chredyd cost isel;
- trafnidiaeth gyhoeddus;
- tlodi tanwydd; a
- phrentisiaethau.

**252.** Cyfeiriodd yr Athro Caroline Lloyd at brosiect ymchwil rhyngwladol mawr a oedd yn cymharu swyddi cyflogau isel ar draws chwe gwlad. Daeth yr ymchwil hwn i'r casgliad mai'r ffactor pwysicaf sy'n gysylltiedig â chyflogau isel oedd:

> "…the inclusiveness of wage setting institutions. Inclusiveness refers to the extent to which wages, benefits and working conditions negotiated by those workers with strong bargaining power are able to be extended to those with less bargaining power."[301]

**253.** Pwysleisiodd yr Athro Rod Hicks y gwahaniaeth rhwng cyflog isel a thlodi yn y gwaith. "Most low paid workers are not poor….the reason why [they] are not poor is because most are second earners within their families".[302] Dadleuodd hefyd er bod rhesymau da dros fynd i'r afael â chyflogau isel, nid yw'r rhai a fydd yn elwa o gamau o'r fath yn debygol o fod yn dlawd oherwydd nid yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n cael cyflogau isel yn byw mewn tlodi.[303]

[299] **MEW06 Ymddiriedolaeth Trussell**, paragraffau 13-15

[300] **MEW05 Cyngor Sir y Fflint**, paragraff 10

[301] **MEW13 Yr Athro Caroline Lloyd, Prifysgol Caerdydd**, paragraff 2.1

[302] **MEW14 Dr Rod Hick, Prifysgol Caerdydd**, paragraffau 21-22

[303] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [270]

**254.** Dywedodd Sefydliad Bevan wrthym am ei ymchwil helaeth sy'n dangos:

> "...focusing only on sectors is unlikely to achieve wage growth, whereas, if you focus on increasing all jobs of any type in any sector, and you don't distinguish between a job in social care and a job in a high-tech company, that 'any job' increase has more effect on wage rates. And you can understand why, because it means there are fewer people chasing jobs, there's less competition, so employers have to raise their wage rates in order to attract and retain workers. And the evidence for that's quite powerful, and I think it does raise some big challenges for the way in which we've done economic policy so far in Wales."[304]

**255.** Amlygodd yr Athro Caroline Lloyd elfen ddaearyddol sy'n gysylltiedig â chyflogau isel a bod lefelau uwch o waith cyflog isel mewn ardaloedd gwledig. Credai mai prinder cyflogwyr mawr sydd i gyfrif am hyn.[305]

**256.** Pwysleisiodd Tinopolis Cymru hefyd bwysigrwydd cynyddu nifer y swyddi fel dull o godi cyflogau:

> "Mwyaf i gyd o waith sydd i bobl, y mwyaf cystadleuol yw'r gwaith, y mwyaf i gyd mae cyflogau'n codi."[306]

## 6. 1. Y Cyflog Byw Gwirfoddol

**Explaining UK Wage Rates**

| | THE MINIMUM WAGE<br>Government minimum for under 25s | NATIONAL LIVING WAGE<br>Government minimum for over 25s | REAL LIVING WAGE<br>The only wage rate based on what people need to live |
|---|---|---|---|
| WHAT IS IT? | £7.38 | £7.83 | £8.75 across the UK and £10.20 in London |
| IS IT THE LAW? | Statutory | Statutory | Voluntary |
| WHAT AGE GROUP IS COVERED? | 21 and older | 25 and older | 18 and older |
| HOW IS IT SET? | Negotiated settlement based on recommendations from businesses and trade unions | A % of medium earnings, currently at 55%, it aims to reach 60% of median earnings by 2020. | Calculation made according to the cost of living, based on a basket of household goods and services |
| IS THERE A LONDON WEIGHTING? | No London Weighting | No London Weighting | Yes - Separate higher rate for London |

---

[304] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [46]

[305] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [217-219]

[306] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 11 Hydref 2017, Cofnod y Trafodion [58]

**257.** Darparwyd y ffigur uchod gan y Living Wage Foundation, ac roedd y cyfraddau'n gywir ym mis Ebrill 2018. Rydym yn defnyddio'r term “Cyflog Byw Gwirfoddol” drwy gydol ein hadroddiad i ddisgrifio'r “Real Living Wage”.

**258.** Nododd Sefydliad Bevan:

> “The voluntary Living Wage offers a potential solution for Wales’ low pay problem. The benefits for employers include increased productivity, improved staff recruitment, attendance and retention, and reputational enhancement, with the impact on wage bills and profits being very modest although they vary with the size and sector of the organisation.”[307]

**259.** Tynnwyd sylw at y budd ehangach i'r economi, gan nodi, er bod yr effaith ar y brif gyfradd tlodi yn debygol o fod yn gymedrol, gall y manteision dros gwrs bywyd pobl fod yn sylweddol.[308]

**260.** Dywedodd Dr Alison Parken wrthym fod yr isafswm cyflog, pan gafodd ei gyflwyno, wedi dod yn nenfwd yn hytrach na llawr. Dywedodd fod angen iddo fod yn uwch, ond ei fod hefyd yn cynyddu oriau gwaith.[309]

**261.** Dywedodd yr Athro Caroline Lloyd wrthym y gellid gwneud llawer mwy yn y sector cyhoeddus a chyda chyflogwyr mawr yng Nghymru i annog talu'r Cyflog Byw Gwirfoddol. Dywedodd hefyd y gallai fod ffyrdd o helpu i gefnogi cwmnïau llai sydd eisiau ei dalu, ond nad ydynt yn gallu ei fforddio. Gallai hyn fod ar ffurf ad-daliadau treth neu gymorth marchnata.[310]

**262.** Teimlai Sefydliad Bevan y gellid gwneud mwy o waith i gynyddu nifer y bobl sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirfoddol, ac roedd o'r farn y byddai ymgyrch broffesiynol ledled y wlad fel yr un yn yr Alban o gymorth, ac roedd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn cytuno.[311] Dywedodd Sefydliad Bevan na welwyd unrhyw gymhellion arloesol eto.[312] Gwnaeth nifer o argymhellion:

---

[307] **MEW11 Sefydliad Bevan**, paragraff 8

[308] **MEW11 Sefydliad Bevan**, paragraff 10

[309] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [202]

[310] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [204]

[311] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [365]

[312] **MEW11 Sefydliad Bevan**, paragraffau11-12

- strategaeth gadarn, gan gynnwys dulliau gweithredu sectoraidd ar gyfer sectorau lle mae cyflogau isel yn endemig;
- datblygu mudiad Cyflog Byw, gan gynnwys negeseuon cyflogwr-i-gyflogwr;
- polisi a deddfwriaeth lleol a chenedlaethol;
- neilltuo adnoddau i hyrwyddo'r cyflog byw gan ddwyn yr holl brif chwaraewyr ynghyd.[313]

**263.** Dadleuodd yr Athro Anne Green fod negeseuon cyflogwr-i-gyflogwr yn cael mwy o effaith ar fusnesau bach, a theimlai y gallai rhoi cyhoeddusrwydd i naratif ar sut y mae talu'r Cyflog Byw Gwirfoddol wedi helpu i gadw staff fod yn effeithiol.[314] Cefnogwyd hyn gan yr Athro Caroline Lloyd a Dr Rod Hick.[315] Roedd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru hefyd yn cefnogi dull tebyg i'r un yn yr Alban.

**264.** Dywedodd yr Athro Karel Williams fod ffactorau gwahanol ar waith rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus a pharodrwydd i dalu'r Cyflog Byw Gwirfoddol. Yn y sector cyhoeddus, mae'n ymwneud â chymhelliant ac adnoddau, ond yn y sector preifat, mae'n ymwneud ag ecoleg fusnes, a gellir mynd i'r afael â hyn drwy gaffael. Dadleuodd fod angen rhoi mwy o sylw i amodau'r gadwyn gyflenwi.[316]

**265.** Tynnodd TUC Cymru sylw at y ffaith bod cyfle gyda'r agenda ranbartholi mewn llywodraeth leol[317] a'r arbedion maint a allai ddeillio o hyn, i wneud y Cyflog Byw Gwirfoddol yn fwy hyfyw.[318]

---

[313] **MEW11 Sefydliad Bevan**, paragraff 13

[314] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [208]

[315] **MEW13 Yr Athro Caroline Lloyd, Prifysgol Caerdydd**, paragraff 5.2 a **MEW14 Dr Rod Hick, Prifysgol Caerdydd**, paragraff 35

[316] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [207]

[317] Cawsom dystiolaeth gan TUC Cymru cyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi'r papur gwyrdd ar ddiwygio Llywodraeth Leol.

[318] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [57]

**266.** Roedd Chwarae Teg yn cefnogi galwadau i godi mwy o ymwybyddiaeth o fanteision talu'r cyflog byw gwirfoddol. Tynnodd sylw hefyd at yr angen am gymorth i sefydliadau llai er mwyn deall a modelu'r costau.[319]

**267.** Fe wnaethom drafod gyda Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru effaith codiadau cyflog yn y sector busnesau bach a chanolig. Cyfeiriodd at waith ymchwil ddiweddar, lle y gofynnodd i fusnesau sut y maent wedi ymateb i gynnydd mewn costau llafur:

> "The first response was, 'Absorb the cost or take lower profits', the second one was, 'Raise prices', and the third one was, 'Cancel investment plans'. So, you can see that there's a mix of things going on here in responding to these kinds of increases in regulation."[320]

**268.** Dywedodd fod hyn yn wahanol i'r ymatebion a gafodd pan ofynnwyd cwestiynau damcaniaethol ynghylch sut y mae busnesau yn debygol o ymateb i gostau uwch.[321]

**269.** Dywedodd wrthym fod 60% o fusnesau bach a chanolig yn talu mwy na'r Cyflog Byw Cenedlaethol i'w holl staff, a bod 33% yn ei dalu i rai o'u staff.

**270.** Galwodd Helen Walbey am fwy o gymorth i fusnesau drwy'r broses gaffael; naill ai drwy ddarparu cymhorthdal ar gyfer y broses achredu neu ddarparu rhyddhad cyffredinol i unrhyw gwmni sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirfoddol. Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach ychydig yn fwy petrus ynghylch yr opsiwn olaf, gan ddweud ei bod yn bwysig bod cyllid prin yn cael ei dargedu'n effeithiol.[322]

**271.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y gwnaed ymdrechion mawr o ran talu'r Cyflog Byw Gwirfoddol. Dywedodd wrthym:

---

[319] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [203]

[320] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [321]

[321] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [321]

[322] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [370]

> "We're doing it within the public sector in Wales. We're going to be doing it more within the private sector in Wales through the economic contract."[323]

**272.** Gan gydnabod y gall fod goblygiadau o ran cost i'r sector cyhoeddus, dywedodd y gellid gwrthbwyso'r costau drwy gynnydd mewn cynhyrchiant. Dywedodd hefyd fod dadl foesol yn ogystal ag un economaidd, a:

> "…that's why we're considering further extending the economic contract to include procurement and the public sector as a whole."[324]

## 6. 2. Rhywedd a chyflogau

**273.** Clywsom fod nodweddion unigol megis rhywedd ac oedran yn cael effaith ar lefelau cyflog.[325] Disgrifiodd Chwarae Teg y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru fel un sy'n ystyfnig o uchel.[326] Dywedodd mai un ffactor sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau rhywiol yn y farchnad lafur yw diffyg opsiynau o ran trefniadau gweithio hyblyg. Roedd o'r farn y gallai newidiadau mewn arferion gweithio modern roi cyfle i fusnesau ailystyried sut y maent yn strwythuro eu gweithluoedd. Mae'r gwaith a wnaed gan Chwarae Teg yn awgrymu bod busnesau yn agored i edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio, ond bod angen cymorth parhaus i'w rhoi ar waith.[327]

**274.** Dywedodd Sefydliad Bevan wrthym fod gan gyflogau isel lawr gludiog iawn, a bod nifer o ffactorau'n cyfrannu at allu pobl i symud o waith â chyflog isel. Cyfeiriodd at y ffaith fod dynion yn fwy tebygol o adael swyddi cyflog isel na menywod.[328] Dywedodd Dr Rod Hick wrthym fod cyflog isel yn ffenomen sydd â chysylltiad sylweddol â rhywedd. Teimlai y byddai mwy o dryloywder ynghylch cyflogau yn gyffredinol, ond hefyd mewn perthynas â'r bwlch rhwng dynion a menywod, o gymorth.[329]

---

323 Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [122]

324 Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [124]

325 **MEW12 Yr Athro Anne Green, Dr Paul Sissons a Dr Neil Lee**, paragraff 6

326 **MEW15 Chwarae Teg**, paragraff 14.1

327 **MEW15 Chwarae Teg**, paragraffau 14.4-14.6

328 Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [64]

329 Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [260]

**275.** Mae mwy o ymwybyddiaeth o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau oherwydd cyhoeddi'r archwiliadau o gyflogau'r ddau ryw ar gyfer cwmnïau â 250 neu fwy o weithwyr.

**276.** Tynnodd Oxfam Cymru sylw at y ffaith fod menywod yn wynebu baich triphlyg:

- incwm isel
- ymrwymiadau gofal; a
- dibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus sy'n crebachu.[330]

**277.** Dywedodd hefyd fod dadansoddiad diweddar y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol yn dangos bod menywod yn eu hugeiniau cynnar yn ei chael hi'n arbennig o anodd dianc rhag cyflogau isel. Y prif rwystrau yw diffyg gwaith hyblyg, o ansawdd da sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau gofalu.[331]

**278.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei fod yn cefnogi galwadau am fwy o ddefnydd o archwiliadau o gyflogau'r ddau ryw.[332]

## 6. 3. Ein barn ni

**279.** Mae cynnydd mewn lefelau cyflog yn hanfodol i leihau lefelau tlodi, yn ogystal â helpu i ledaenu ffyniant economaidd ledled Cymru. Gwyddom fod gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd deddfwriaethol cyfyngedig i roi pethau fel y cyflog byw gwirfoddol ar sylfaen statudol. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi bod lefelau cyflog yn gymhleth a bod cyflogwyr yn aml yn dymuno talu cyflogau uwch ond nad ydynt bob amser mewn sefyllfa i wneud hynny am amrywiol resymau.

### Y Cyflog Byw Gwirfoddol

**280.** Credwn fod y dadleuon economaidd a moesol dros dalu'r Cyflog Byw Gwirfoddol yn glir.

**281.** Mae nifer o gyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn dechrau talu'r Cyflog Byw Gwirfoddol, ac rydym yn cefnogi hyn yn gryf. Mae'r rhain yn cynnwys GIG Cymru, awdurdodau lleol Cymru, Llywodraeth Cymru, nifer o Gyrff a Noddir gan

[330] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Gorffennaf 2017, Cofnod y Trafodion [68]

[331] **MEW3a Oxfam Cymru**, paragraff 1.9

[332] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [30]

Lywodraeth Cymru, a Chomisiwn y Cynulliad (sy'n cyflogi staff sy'n gweithio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru). Mae'n bwysig bod unrhyw gyflogwr yn y sector cyhoeddus sy'n ymrwymo i dalu'r cyflog byw gwirfoddol yn gweithio tuag at sicrhau bod unrhyw swyddi sy'n cael eu rhoi ar gontract allanol yn cael eu cwmpasu gan ymrwymiad o'r fath hefyd. Ond gwyddom y gall hyn fod yn heriol i lawer o gyrff yn y sector cyhoeddus, yn enwedig awdurdodau lleol, yn ystod cyfnod o gyni parhaus.

**282.** Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar am gytundeb cyflog dwy flynedd rhwng yr undebau llafur a llywodraeth leol. Bydd y cytundeb yn cynnwys cynnydd yn y raddfa gyflog isaf i £8.50 yr awr yn 2018/19 ac i £9.00 yr awr yn 2019/20.

**283.** Credwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau i sicrhau bod y Cyflog Byw Gwirfoddol yn cael ei dalu ar draws y sector cyhoeddus datganoledig. Rydym yn gwerthfawrogi y gall sefydliadau fynd i gostau ychwanegol, ac efallai y bydd angen rhoi digon o amser i addasu a pharatoi ar gyfer talu'r Cyflog Byw Gwirfoddol.

**284.** O ran cynyddu'r nifer sy'n talu'r cyflog byw gwirfoddol yn y sector preifat, credwn fod gwersi clir i'w dysgu o'r dull gweithredu yn yr Alban. Dylai Llywodraeth Cymru edrych i weld pa elfennau o ymgyrch Llywodraeth yr Alban y gellid eu defnyddio yng Nghymru. Yn benodol, rydym yn cydnabod pŵer negeseuon rhwng cymheiriaid, ac rydym yn credu y dylai'r busnesau sydd eisoes yn talu'r Cyflog Byw Gwirfoddol fod wrth wraidd ymgyrch ehangach i helpu i gynyddu cyfranogiad.

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ymgyrch eang a phellgyrhaeddol i annog talu'r cyflog byw gwirfoddol yn y sector preifat a chyhoeddus yng Nghymru. Dylai ymgyrch o'r fath dynnu sylw at y budd economaidd i fusnesau a dylai ddathlu'r sefydliadau a'r cwmnïau hynny sydd eisoes yn talu'r cyflog byw gwirfoddol.

**285.** Ar y cyd ag ymgyrch o'r fath, credwn y dylai Llywodraeth Cymru wneud y mwyaf o effaith y Contract Economaidd i sicrhau bod talu'r cyflog byw gwirfoddol wrth wraidd yr amodau cymorth busnes. Os gwneir hyn ar y cyd â gweithredu ar gontractau dim oriau, credwn y caiff effaith sylweddol ar ansawdd bywydau pobl ag incwm isel. Bydd hefyd yn arwain at fudd economaidd a chymdeithasol cadarnhaol llawer ehangach. Dyma'r amser i weithredu.

**Argymhelliad 20.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnig cymhellion i dalu'r cyflog byw gwirfoddol wrth ystyried ceisiadau am gymorth ariannol y mae'r Contract Economaidd yn ei gwmpasu. Dylid ystyried hyn yn ofyniad craidd i fusnesau mwy sy'n cyflogi o leiaf 250 o staff.

## Rhywedd a Chyflogau

**286.** Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi dod i amlygrwydd dros y misoedd diwethaf, yn sgil archwiliadau o gwmnïau â 250 o weithwyr neu fwy. Cymerwyd ein tystiolaeth cyn cyhoeddi'r rhain, ond roedd yn amlwg bod effaith y gwahaniaeth ar aelwydydd ledled Cymru yn dal i fod yn sylweddol.

**287.** Rydym yn cydnabod bod y dystiolaeth yn dangos amrywiad rhwng gwahanol sectorau. Gwyddom hefyd fod y rhesymau'n gymhleth, ac ni all Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r mater hwn ar ei phen ei hun. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau y gellid ac y dylid eu cymryd mewn cyd-destun Cymreig.

**288.** Rydym yn croesawu'r ymrwymiad yn y Cynllun Cyflogadwyedd i Lywodraeth Cymru weithio gyda chwmnïau sydd â record wael.

**289.** Rydym yn ymwybodol bod sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn destun Dyletswyddau Cydraddoldeb ar gyfer y Sector Cyhoeddus penodol o ran gwahaniaethau mewn cyflog rhwng y rhywiau, ac o ganlyniad nid oedd yn ofynnol iddynt gyhoeddi'r rhain ar borth Llywodraeth y DU. Rydym wedi derbyn tystiolaeth ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau fel rhan o'n hymchwiliad i Feichiogrwydd, Mamolaeth a Gwaith a byddwn yn edrych ar y mater hwn yn fanylach.

**290.** Nodwn fod diffyg data ar gael gan gwmnïau o faint canolig. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r Contract Economaidd, osod gofyniad ar gwmnïau sy'n cael cymorth sydd â rhwng 50 a 249 o weithwyr i ddarparu data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Bydd y cyfuniad o ddata'r DU a data Cymru yn helpu i egluro maint y broblem yng Nghymru, a'i gwneud yn haws i benderfyniadau polisi effeithiol gael eu gwneud.

> **Argymhelliad 21.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gosod gofyniad ar bob cwmni, gyda rhwng 50-249 o weithwyr, sy'n cael cymorth fel rhan o'r Contract Economaidd i gyhoeddi data ar eu bylchau mewn cyflog rhwng y rhywiau.

**291.** Hoffem weld cynllun gweithredu clir gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd yn mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Er bod y Cynllun Cyflogadwyedd yn datgan y bydd yn gweithio gyda phartneriaid ar hyn, nid yw'n nodi unrhyw derfynau amser ar gyfer y gwaith hwn, nac unrhyw gamau gweithredu manwl. Gwyddom fod Ysgrifennydd y Cabinet yn disgwyl i'r Bwrdd Gwaith Teg ystyried y bwlch cyflog rhwng y rhywiau fel rhan o'i waith.

**Argymhelliad 22.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu sy'n nodi'r hyn y bydd yn ei wneud i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ôl i'r Bwrdd Gwaith Teg gyhoeddi ei argymhellion. Dylai'r cynllun gweithredu hwn gynnwys cerrig milltir, targedau a chamau gweithredu clir.

# 7. Lles

## Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth ar ddiwygio lles, mae gennym nifer o bryderon ynghylch effaith Credyd Cynhwysol.[333]

**292.** Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth gyda Dr Sharon Wright a Dr Lisa Scullion o'r prosiect Welfare Conditionality, ysgrifenasom at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y pryderon a gododd o'r sesiwn.

**293.** Ymysg y materion a amlygwyd yn yr ohebiaeth hon roedd

- Oedi cyn derbyn taliadau ar ôl gwneud cais cychwynnol am Gredyd Cynhwysol. Clywsom y gallai pobl fod yn aros hyd at 10 wythnos cyn derbyn taliad. Er y gellir gwneud taliadau ymlaen llaw, mae'r rhain ar ffurf benthyciadau, felly mae pobl sydd eisoes yn byw ar ymylon fforddiadwyedd mewn dyled ar unwaith, cyn iddynt dderbyn Credyd Cynhwysol.
- Taliadau budd-dal tai yn cael eu cynnwys yn y taliad incwm personol. Mae hyn yn broblem benodol pan fo oedi o hyd at 10 wythnos cyn derbyn taliadau. Clywsom hefyd y gallai cynnydd mewn sancsiynau arwain at gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent, ac yn y pen draw droi pobl allan o'u tai. Er nad oes sancsiwn yn gysylltiedig â'r taliad tai, os caiff sancsiwn ei osod ar lwfans byw unigolyn, caiff ei roi yn y sefyllfa amhosibl o orfod dewis rhwng talu ei rent neu dalu costau hanfodol eraill, megis bwyd. O ganlyniad, mae troi allan a digartrefedd yn risgiau newydd sy'n deillio o gredyd cynhwysol.[334]
- Mae'r broses hawlio ar y cyd yn golygu y gellir gosod sancsiynau ar aelwydydd cyfan yn awr. Mae hawliadau ar y cyd yn anfantais benodol i bobl mewn perthynasau lle y maent yn cael eu cam-drin. Awgrymodd y tystion wrthym y dylai'r taliad gael ei wneud i'r prif ofalwr yn hytrach na'r prif enillydd cyflog, a fyddai'n golygu bod anghenion ariannol plant a'u prif ofalwr yn cael eu blaenoriaethu.

[333] Nid yw un Aelod o'r Pwyllgor, Janet Finch-Saunders AC yn cytuno â'r safbwyntiau a nodir yn y Bennod hon.

[334] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017, Cofnod y Trafodion [8]

- Ymestyn sancsiynau i bobl sydd mewn gwaith. Clywsom fod disgwyl o hyd i bobl sydd mewn gwaith fynd i'r Ganolfan Waith. Mewn rhai achosion, mae pobl wedi cael eu cosbi pan nad ydynt wedi gallu aildrefnu apwyntiadau, na allant eu mynychu am eu bod yn gweithio. Clywsom fod dwysáu amodoldeb, ynghyd â'r gofyniad i fod yn chwilio am swydd 35 awr yr wythnos, yn hynod ac yn rhoi pobl dan lawer o straen.

- Materion gweinyddol yn ymwneud â sancsiynau. Clywsom eu bod yn aml yn cael eu gosod yn annisgwyl, ac mae pobl ond yn darganfod eu bod wedi cael cosb wythnosau neu fisoedd ar ôl y digwyddiad perthnasol. Gall hyn ei gwneud hi'n anodd i bobl herio'r penderfyniad. Rydym hefyd yn pryderu y bydd sancsiynau'n berthnasol i rai o'r grwpiau sydd fwyaf agored i niwed. Er ein bod yn ymwybodol nad oes modd cosbi rhai grwpiau, rydym yn pryderu y bydd rhai pobl o fewn y tri grŵp y gellir eu cosbi a allai gael eu hystyried yn bobl sy'n agored i niwed.

- Problemau sy'n gynhenid i gyflwyno'r rhaglen, er enghraifft y ffaith bod y broses hawlio yn un ddigidol ddiofyn. Er ein bod wedi clywed bod rhywfaint o ddarpariaeth ar gael i bobl na allant wneud cais yn ddigidol, gwyddom fod hyn yn gyfyngedig. Yn ogystal, codir cyfradd premiwm i ddefnyddio'r llinell ffôn.

Dywedodd y tystion wrthym mai cam syml, ond defnyddiol iawn, fyddai sicrhau bod modd ffonio'r rhif am ddim. Roeddem yn cefnogi'r awgrym hwn yn gryf, ac rydym yn falch bod y newid hwn wedi'i wneud.

- Symud hawddfreintiau[335] o'r ddarpariaeth ffurfiol i ganllawiau, sy'n golygu eu bod wedi dod yn fwy agored i ddisgresiwn. Mae hyn yn cyflwyno mwy o amrywiaeth i'r system, ac yn rhoi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn perygl.

- Y ffiniau ariannol tynn iawn y mae pobl yn gweithredu o'u mewn wrth symud i mewn ac allan o waith. Clywsom, mewn rhai

[335] O dan y system hawddfreintiau, mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd angen rhoi gofynion sy'n ymwneud â gwaith yr hawlydd i'r naill ochr am gyfnod o amser. Yn wreiddiol, mewn rhai amgylchiadau (megis trais yn y cartref, profedigaeth, dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol) roedd y hawddfreintiau hyn yn ofyniad cyfreithiol, ond mewn amgylchiadau eraill (megis digartrefedd neu argyfwng domestig) roeddent yn ddewisol.

achosion, wrth i enillion gynyddu, y caiff hyd at 63% o'r cynnydd ei dynnu o'u Credyd Cynhwysol.

## 7. 1. Datganoli pwerau ar ddiwygio lles i'r Cynulliad Cenedlaethol

**294.** Roedd rhai rhanddeiliaid yn galw am ddatganoli rhai pwerau lles i'r Cynulliad Cenedlaethol. Galwodd Dinas a Sir Abertawe am ddatganoli'r rhaglen Gwaith ac Iechyd i Gymru, gan eu bod yn credu y byddai hyn yn creu cysylltiadau gweithio agosach gyda'r holl bartneriaid perthnasol.[336]

**295.** Dywedodd Sefydliad Bevan, er nad yw'r rhan fwyaf o'r system les wedi'i datganoli, fod gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros elfennau allweddol o'r system gan gynnwys: Cymorth ar gyfer y dreth cyngor; y Gronfa Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a'r Gronfa Cymorth Dewisol, ynghyd â rheolaeth dros feysydd eraill sy'n effeithio ar deuluoedd megis taliadau presgripsiwn; rhenti cymdeithasol a gofal plant.[337]

**296.** Galwodd Sefydliad Bevan am ddatganoli Budd-dal Tai a chymorth gyda chostau gofal plant ar unwaith ynghyd â sicrhau bod elfennau datganoledig y system les yn darparu pecyn cydlynol o gymorth.[338]

**297.** Pan ymchwiliwyd i'r posibilrwydd o ddatganoli rhywfaint o gyfrifoldeb dros les i Lywodraeth Cymru, roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn glir iawn ynghylch ei wrthwynebiad i gam o'r fath:

> "... it's a matter of principle, of social solidarity, that we should all be entitled to an equal claim to our welfare state. The needs of citizens right across the UK, wherever they live, should be equally met, in my view.....I'd be very concerned about devolving this particular responsibility given that the risk would then transfer to the Welsh taxpayer.....I do not believe it's in the interests of the Welsh people."[339]

---

[336] **MEW02 Dinas a Sir Abertawe**, paragraff 3.2

[337] **MEW11 Sefydliad Bevan**, paragraffau 27-28

[338] **MEW11 Sefydliad Bevan**, paragraff 29

[339] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [184]

**298.** Ychwanegodd fod goblygiadau ymarferol i ddatganoli o'r fath, gan gynnwys y ffaith bod y ffin mewn sawl rhan o Gymru yn hynod dyllog ac na fyddai'n fuddiol i'r naill gymuned neu'r llall fod â systemau lles gwahanol ar waith dros y ffin.[340]

## 7. 2. Ein barn ni

**299.** Nodwyd ein barn ar faterion sy'n ymwneud â chyflwyno'r Credyd Cynhwysol fel rhan o'n gohebiaeth at Lywodraeth y DU. Nodwyd yn glir bod gennym bryderon sylweddol. Er bod rhai materion, megis dileu taliadau ar gyfer y llinell gymorth wedi cael sylw, ni roddwyd sylw i sylwedd ein pwyntiau. Mae gennym bryderon o hyd am effaith y newidiadau lles ar bobl yng Nghymru ac mae'r rhain yn cael ei rhannu'n eang. Rydym yn cydnabod bod hyn y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru.

**300.** Yn ein hadroddiad diweddar ar gysgu ar y stryd yng ***Nghymru, Bywyd ar y Stryd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru***, Ebrill 2018, amlygwyd diwygiadau lles fel achos strwythurol cysgu ar y stryd a ffactor achosol yn y cynnydd diweddar mewn cysgu ar y stryd. Ein pryder mwyaf yw nad yw goblygiadau llawn y Credyd Cynhwysol yn amlwg eto yng Nghymru.

**301.** Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, ac yn wyneb diwygiadau lles, mae rheoli cyllid yn dod yn fwyfwy heriol i'r rhai tlotaf a mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Credwn y byddai cael yr hyblygrwydd i newid y ffordd y caiff Credyd Cynhwysol ei weinyddu yn galluogi Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull mwy addas i ddiwallu anghenion hawlwyr yng Nghymru. Er enghraifft, darparu taliadau i hawlwyr ddwywaith y mis a'u galluogi i gael eu gwneud yn uniongyrchol i landlordiaid er mwyn helpu i leihau'r risg o ôl-ddyledion rhent. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gofyn am bwerau dros weinyddu'r Credyd Cynhwysol yn debyg i'r rhai sydd ar gael i Lywodraeth yr Alban.[341]

**302.** Ar ôl ystyriaeth bellach o'r dystiolaeth a gawsom ar gyfer yr ymchwiliad hwn, rydym yn datblygu ymhellach yr argymhelliad hwnnw. Fel rhan o unrhyw ystyriaeth o ddatganoli'r broses o weinyddu'r Credyd Cynhwysol, credwn y dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad manwl o fanteision a risgiau datganoli o'r fath a chyhoeddi hynny.

---

[340] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Ionawr 2018, Cofnod y Trafodion [188]

[341] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Nghymru, **Bywyd ar y Stryd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru**, Ebrill 2018

**Argymhelliad 23.** Rydym yn argymell, fel rhan o unrhyw ystyriaeth o ddatganoli pwerau ar weinyddu'r Credyd Cynhwysol, bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad o'r manteision a'r risgiau.

**303.** Gan adeiladu ar yr argymhelliad hwn, ac yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru, a'r argymhelliad yn yr ymchwiliad i gysgu ar y stryd, bwriadwn ymgymryd â darn arall o waith ar sut y mae datganoli rhai pwerau dros ddiwygio lles wedi gweithio yn yr Alban.